

S4C: ADOLYGIAD EFFEITHLONRWYDD
AC ARLOESI

Richie Turner,
Dirprwy Gyfarwyddwr Yr Academi Fyd-eang,
Prifysgol Cymru

S4C: EFFICIENCY AND
INNOVATION REVIEW

Richie Turner,
Deputy Director of Global Academy,
University of Wales

Ymateb Awdurdod S4C
Tachwedd 2011

S4C Authority Response
November 2011

S4C: ADOLYGIAD EFFEITHLONRWYDD AC ARLOESI

Gorffennaf 2011

RICHIE TURNER

DIRPRWY GYFARWYDDWR YR ACADEMI FYD-EANG

PRIFYSGOL CYMRU



Adeiladu Partneriaethau Byd-Eang | Hybu Arloesedd Cymru
Building Global Partnerships | Boosting Welsh Innovation

Cynnwys

Cefndir, cyd-destun a methodoleg	Tud 3-4
Modelau ar gyfer Sefydliadau Arloesol	Tud 5-10
Asesu S4C yn erbyn nodweddion sefydliad We-Think	Tud 11-18
Arbedion Effeithlonrwydd	Tud 19-30
Casgliadau ac Argymhellion	Tud 31-34
Crynodeb o'r Canfyddiadau, yr Argymhellion a Matrics Gweithredu	Tud 35-45
Atodiad 1: Strategaethau, polisiâu a dogfennau a adolygwyd	Tud 46

Mae'r Academi Fyd-eang, a sefydlwyd gan Brifysgol Cymru yn 2008, yn hybu arloesi yn yr economi Gymreig drwy gydweithio cynyddol rhwng busnesau, sefydliadau a phrifysgolion, yng Nghymru ac yn fyd-eang.

Cwblhawyd yr adolygiad a'r adroddiad hwn yn gyfan gwbl gan Richie Turner, Dirprwy Gyfarwyddwr / Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Allanol yn yr Academi Fyd-eang.

www.globalacademy.org.uk

CEFNDIR, CYD-DESTUN A METHODOLEG

1. **Y sefyllfa bresennol:** Mae S4C yn wynebu heriau allanol a mewnol sylweddol, ac os nad ymdrinnir â hwy'n briodol gallant beryglu ei ddyfodol a dyfodol gwasanaeth teledu cyhoeddus yn y Gymraeg i Gymru gyfan. Byddai gostyngiadau sylweddol yn ei gyllideb, trefniadau cyllido newydd gyda'r BBC ac ymadawiad ei Gadeirydd a'i Brif Weithredwr blaenorol yn ddigon o helynt i'r rhan fwyaf o sefydliadau; ond, fodd bynnag, mae gan S4C hefyd broblemau endemig eraill, mwy sefydliadol a diwylliannol i ymdopi â hwy ar yr un pryd.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, fodd bynnag, gyda'r gred bod modd trosi'r holl fygythiadau presennol yn gyfleodd i newid a bod yr holl wendidau'n arwyddion o'r trywydd sydd ei angen ei ddilyn i wella.

2. **Effeithlonrwydd ac Arloesi:**

Mae adolygiad effeithlonrwydd ac arloesi yn wrtheiriad i ryw raddau gan fod sefydliadau, a'u cyflogeion, yn cael eu tynnu i sawl cyfeiriad gwahanol mewn ymateb i'r cyfrifoldeb deuol o fod yn effeithlon ac arloesol ar yr un pryd. Nid yw'r ddau derm yn golygu'r un peth. Bydd bod yn fwy arloesol yn aml yn arwain at fod yn fwy effeithlon, ond nid hynny'n unig; ac mae effeithlonrwydd yn aml yn digwydd ar draul arloesedd. Felly, rwyf wedi gwahanu'r ddau derm i raddau helaeth yn yr adroddiad hwn, a hoffwn yn gyntaf ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf yn fy marn i, sef sut i wneud S4C yn fwy arloesol gan y bydd hyn yn ffurfio'i ddyfodol tymor hir drwy rymuso'r staff ac Awdurdod S4C i wella'u hunain. Wrth gwrs, mae angen dirfawr hefyd i wneud gwelliannau ar unwaith i effeithlonrwydd y sefydliad ac mae'r adroddiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ar hyn o beth.

3. **Nodau'r adroddiad a'i ganfyddiadau:**

- a. Sierhau bod S4C nid yn unig yn goroesi ei anawsterau tymor byr a chanolig ond ei fod yn ffynnu hefyd, h.y. yn datblygu fel sefydliad mwy creadigol ac arloesol sy'n ymwybodol o'i wendidau ei hun ac a all newid yn gyflym.
- b. Sierhau llwyddiant diwylliannol a pharhad gwasanaeth teledu o safon uchel i Gymru drwy gyfrwng y Gymraeg.
- c. Galluogi gweithgareddau S4C i ganolbwyntio ar y genhadaeth sylfaenol o gomisiynu rhaglenni teledu amrywiol a safonol sy'n adlewyrchu Cymru, a'r diwylliant a'r gymdeithas Gymraeg eu haith.
- d. Gwneud y gorau o'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer comisiynu rhaglenni teledu; a thrwy hynny ymdrechu i leihau costau gweithredol a chwestiynu gwariant a gweithgareddau craidd nad ydynt yn gysylltiedig â darlledu gwasanaeth cyhoeddus, h.y. diogelu gwylwyr gwasanaeth teledu Cymraeg a'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, i'r graddau posibl rhag dirywiad yn safon y rhaglenni, eu hamrywiaeth a'u cyrhaeddiad.

4. Methodoleg:

Comisiynwyd yr adolygiad a'r adroddiad hwn gan y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro i ategu'r adolygiadau effeithlonrwydd ac arloesi mewnl ehangach sy'n cael eu cynnal. Bwriedir iddi fod yn ddogfen waith (a fydd yn destun trafod, dadlau ac y gweithredir arni) yn hytrach nag archwiliad i sefyllfa bresennol S4C.

Hefyd, ni fwriadwyd i'r adolygiad hwn fod yn ymarferiad ymgynghori trylwyr a manwl â staff S4C, yr Awdurdod a'i randdeiliaid; yn hytrach mae'n cynnig cipolwg ar farn a safbwyntiau staff S4C a'i randdeiliaid. Gyda golwg ar hyn, ac o gofio bod yr amser oedd ar gael yn brin, y fethodoleg a ddewiswyd oedd:

- a. Cynnal arolwg o strategaethau corfforaethol, polisïau ac adolygiadau (a restrir yn atodiad 1).
- b. Arsylwi ar y dulliau gweithio a'r diwylliant ym Mhrif Swyddfa S4C.
- c. Cynnal cyfweiliadau cyfrinachol â mwyafrif yr uwch staff.
- ch. Cynnal cyfweiliadau cyfrinachol ag unrhyw aelod o'r staff a hoffai gael eu holi
- d. Cynnal cyfweiliadau ag amrywiaeth o unigolion a sefydliadau o'r sector cynhyrchu teledu annibynnol a rhanddeiliaid eraill (sylwer: nid oedd hwn yn ymarferiad ymgynghori ffurfiol).
- dd. Canfod y model(au) busnes arloesi mwyaf priodol ar gyfer datblygiad S4C yn y dyfodol
- e. Gwneud argymhellion ar arbedion effeithlonrwydd posibl.
- f. Cyflwyno'r canfyddiadau cychwynnol i Awdurdod S4C.
- ff. Paratoi adroddiad terfynol.

Mae'r adroddiad hwn yn amlwg wedi rhoi sylw i farn a safbwyntiau staff S4C a rhanddeiliaid allanol, ond nid yw wedi ceisio cynrychioli'r safbwyntiau hyn yn ffurfiol. Roedd pob cyfweiliad yn gwbl gyfrinachol ac mae pob sylw a geir yn yr adolygiad hwn wedi'i wneud yn ddiennw.

Cynhaliwyd pob cyfweiliad rhwng Ebrill a Mai 2011.

MODELAU AR GYFER SEFYDLIADAU ARLOESOL

Arferai'r hen fodolau a goleddid gan sefydliadau, boed yn y sector preifat neu gyhoeddus, gyfateb i strwythur gorchymyn a rheoli. Roedd gan bob aelod o'r staff ei le o fewn hierarchaeth, gyda phob swydd wedi'i diffinio gan deitl, swydd ddisgrifiad a llinellau awdurdod a phenderfynu pendant. Ers yr 1970au, nid yw modelau pŵer a biwrocratiaeth o'r fath mor amlwg, ac mae'r ffiniau'n llai pendant. Mewn ymdrech i fod yn fwy cost effeithiol ac fel arfer gyda mwy o bwyslais ar safon, mae sefydliadau wedi closio at strwythurau mwy gwastad, agweddau mwy hyblyg tuag at swydd ddisgrifiadau, amgylcheddau gweithio, rhannu sgiliau a llwybrau gyrfa llai diffiniedig. Er hynny, nid yw'r dull hwn o fod yn fwy effeithlon a mwy arloesol heb ei broblemau sylweddol; mae ymdrechion i fod yn fwy diwastraff yn aml yn cael effaith gwbl groes.

Gall strwythurau rheoli fod yn fwy gwastad ond os yw hynny'n golygu canoli mwy a rhoi grym i lai o rolau ni fydd hynny'n gwella arloesedd nac effeithlonrwydd yn y tymor hir gan y bydd teyrngarwch ac ymddiriedaeth ar bob ochr y berthynas rhwng y cyflogwr a'r cyflogai'n dioddef.

Mewn geiriau eraill, dylai S4C ddysgu drwy gamgymeriadau datblygiadol y mae miloedd o sefydliadau eraill wedi'u gwneud – drwy boen a chamgymeriadau – a cheisio cefnu ar ei strwythur hen-ffasiwn a braidd yn awdurdodaidd a mabwysiadu un o'r modelau newydd, creadigol, arloesol a chydweithredol sy'n dod i'r amlwg ledled y byd. Fel sefydliad sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol nid oes rheswm pam na allai fabwysiadu'n ddiraffferth yr enghreifftiau o arferion gorau sy'n deillio o egwyddorion arloesedd agored.

Mae arloesedd agored yn derm sy'n cael ei gamddeall yn aml. Nid yw bob amser yn golygu rhannu eich eiddo deallusol (IP) ag eraill (er y gall olygu hynny), mae'n ymwneud fwy â sut i gynhyrchu syniadau newydd drwy gydweithredu ac yn allweddol sut i weithredu'r syniadau hynny drwy gydweithredu. Ond yn hytrach nag enwi nifer o enghreifftiau o fodolau newydd o arloesedd ac astudiaethau achos di-rif, awgrymaf yn hytrach fod S4C yn mabwysiadu ymagwedd gyfannol a ddatblygwyd yn bennaf (ond hefyd drwy gydweithrediad yng ngwir ysbryd arloesi agored) gan Charles Leadbeater o'r enw We-Think¹ a'r 7 Steps to a Culture of Innovation syml gan Josh Linkner.

Mae cysyniad We-Think yn prysur cael ei dderbyn fel model sefydliadol amgen gan ei fod yn annog rhannu syniadau o unrhyw ffynonellau o fewn yn ogystal ag o'r tu allan i'r sefydliad. Gallant fod yn rhanddeiliaid neu gwsmeriaid uniongyrchol, neu gynhyrchwyr syniadau ac arloeswyr anuniongyrchol o bob rhan o'r byd.

“Mae We-Think yn cynnig ymagwedd wahanol tuag at arloesi...: tuag at waith, drwy ddefnyddio hunan reoli i'w wneud yn fwy effeithlon a chreadigol; tuag at dreuliant, trwy droi defnyddwyr yn gyfranogwyr i greu atebion a thrwy hynny fanteisio ar eu hymroddiad, eu hymdrechion a'u syniadau; a thuag at arweinyddiaeth, sy'n defnyddio cymunedau yn hytrach na chrynhoi grym ar y brig a chyhoeddi cyfarwyddiadau o'r uchelfannau. Bydd modelau agored a chydweithredol ar gyfer sefydliadau'n raddol ddisodli modelau caeedig a

¹ We-Think: Mass innovation, not mass production – Charles Leadbeater, 2008

hierarchaidd fel ffordd o hybu arloesedd, trefnu gwaith ac ymgysylltu â defnyddwyr.²”

“Bydd y modelau busnes mwyaf cyffrous yn y dyfodol yn gymysgedd sy’n cyfuno elfennau o’r cwmni a’r gymuned, o fasnach a chydweithrediad: yn agored mewn rhai ffyrdd a chaeedig mewn ffyrdd eraill; gan gynnig peth cynnwys yn ddi-dâl a chodi tâl am rai gwasanaethau; gwasanaethu pobl fel defnyddwyr a’u hannog, pan mae hynny’n berthnasol, i fod yn gyfranogwyr. Yn raddol bydd We-think yn newid pum agwedd sylfaenol ar fywyd economaidd: sut yr ydym yn gweithio, defnyddio, arloesi, arwain ac yn berchen ar ymdrechion cynhyrchol³”

Gallai defnyddio’r cysyniad We-Think drawsnewid S4C yn llwyr o fod yr hyn a ddisgrifiwyd gan lawer o’r bobl a holwyd ar gyfer yr adroddiad hwn fel sefydliad sydd ‘filltiroedd ar ei hôl hi ym mhob ffordd’ i fod ar flaen y gad, yn achos rhai o’i brif swyddogaethau, o leiaf. Mae’r adrannau canlynol yn amlinellu’r hyn a fyddai’n gwneud S4C yn sefydliad We-Think.

Rhaid i bob sefydliad gyflawni canlyniadau a deilliannau. Mae sefydliadau llwyddiannus fel arfer yn gwneud tri pheth allweddol yn dda iawn: maent yn cymell eu staff ac eraill, megis y sector teledu annibynnol yn yr achos hwn, i wneud y cyfraniad mwyaf effeithiol at ei holl waith; maent yn cydlynu cyfraniadau i wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni’r canlyniadau, ac yn y drefn gywir; ac maent yn arloesi drwy annog staff i ddysgu ac addasu. Mae’r model We-Think yn disgrifio hyn yn gryno fel cymell, cydlynu ac arloesi⁴. Bydd adran nesaf yr adroddiad yn edrych i ba raddau y mae S4C yn llwyddo ar hyn o bryd i gymell, cydlynu ac arloesi, ond mae llawer o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn ei chael yn anodd ceisio gwneud pob un o’r tri ar yr un pryd.

Cydweithredu: Mae strwythurau agored a chydweithredol mewn sefydliadau’n dueddol o reoli eu hanghenion deuol am effeithlonrwydd ac arloesedd yn well, maent yn tueddu i ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o gymell, cydlynu ac arloesi heb yr angen am fiwrocratiaeth gymhleth nac uwch reolwyr llawdrwm. Mae sefydliadau o’r fath yn hytrach yn cymell drwy gael staff o bob rhan o’r sefydliad, waeth beth yw eu swydd ffurfiol neu eu set sgiliau, i weithio gyda’i gilydd drwy gyfrwng tasgau diddorol, a galluogi unrhyw un i gymryd rhan mewn prosesau datrys problemau a bernir llwyddiant neu syniadau da drwy adolygiadau gan gymheiriaid. Mae hyn yn gwbl groes i’r dull traddodiadol a goleddir gan lawer, gan gynnwys S4C, lle mae swyddi a phrosesau’n cael eu datblygu gan uwch reolwyr ac sydd wedyn yn dyrannu tasgau sy’n seiliedig ar eu rhagdybiaethau, a’r agwedd mai ‘ni ŵyr orau’ tuag at gwblhau tasgau’. Bydd sefydliadau We-Think, ar y llaw arall, yn caniatáu i staff drefnu eu hunain i fynd i’r afael â thasg a rhannu gwaith yn seiliedig ar sgiliau a’r hyn sydd angen ei wneud mewn gwirionedd.

Yr amgylchedd ffisegol: Mae adeiladau gwaith a swyddfeydd yn fwyaf arbennig yn dueddol o gael eu dylunio mewn ffordd sy’n helpu rheolwyr i gadw rheolaeth. Nid ydynt fel arfer wedi eu dylunio i annog cydweithredu, creadigrwydd ac arloesi. Nid yw swyddfeydd yn annog deialog â chwsmeriaid,

² Ibid Tud 89

³ Ibid Tud 91

⁴ Ibid Tud 91

rhanddeiliaid ac ati; a dweud y gwir maent yn fannau da i guddio rhagddynt. Mae swyddfeydd hefyd yn dueddol o annog agweddau tiriogaethol rhwng adrannau a thimau a gall atgyfnerthu rhaniadau rhwng timau. Ni all hyd yn oed swyddfeydd cynllun agored fel rhai S4C yn Llanisien ddatrys y broblem bob amser. Ni fydd creu gofod sy'n cael ei rannu ac sy'n annog cydweithredu o amgylch y peiriant coffi ac ati'n effeithiol oni bai bod diwylliant cydweithredol yn bodoli eisoes,

Cyfathrebu mewnol: Mae trefniadau cyfathrebu llawer o sefydliadau effeithiol yn parhau i fod yn rhai gwael; ymddengys eu bod yn isel iawn ar agenda uwch reolwyr 'llwyddiannus', hyd yn oed. Er hynny, heb agwedd agored, ddwy ffordd tuag at gyfathrebu mewnol ni ellir arloesi mewn gwirionedd. Er enghraifft, mae Google yn cynnal cyfarfod wythnosol ar gyfer ei holl staff (un ai wyneb yn wyneb neu ar-lein) lle gall unrhyw un ofyn cwestiwn i uwch reolwyr am strategaeth, perfformiad ayb. Gall unrhyw un awgrymu syniad neu brosiect newydd, ac os caiff sêl bendith gallant fwrw ymlaen â'r prosiect hwnnw ar yr amod eu bod yn rhannu'r manylion ar fewnwyd datblygu. Mae'n amlwg bod yn rhaid cael ffiniau ar gyfer dull o'r fath o weithio ond y pwynt pwysig yw ei fod yn esgor ar egwyddor agored a rhannu syniadau newydd.

Arweinyddiaeth: Mae modelau arweinyddiaeth caeedig, fel y gwelwyd yn S4C yn ddiweddar, yn hen-ffasiwn ac yn analluog i ymdopi â'r math o sefydliad We-Think newydd cydweithredol y dylai S4C anelu ato. Fel yn achos ymrwymiad i gynyddu cyfathrebu mewnol ac agored - bydd angen ethos mwy democrataidd tuag at arweinyddiaeth. Ni all arweinydd sy'n chwifio'r faner bellach ddisgwyl cefnogaeth ddiamod y staff oni bai bod strwythur a gweithrediadau'r sefydliad yn cadarnhau'r ymdeimlad eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yr ymddiriedir ynddynt a bod sylw cyfartal yn cael ei roi i'w syniadau. Dylai arddull newydd o arwain wneud llai o benderfyniadau; yn hytrach dylai ganolbwyntio ar sefydlu fframwaith i rymuso pobl eraill, i alluogi pobl eraill i dderbyn cyfrifoldeb a ffurfio timau gwaith i ymgymryd â thasgau ac i gyflawni deilliannau positif. Mae arweinwyr newydd yn aml yn alluogwyr tawel sy'n gwahodd eraill i awgrymu syniadau yn hytrach na chael eu gweld fel rhywun sydd am reoli popeth. Wrth i sefydliad roi mwy o bwyslais ar arloesi bydd yn bwysicach bod yr arweinyddiaeth yn annog syniadau. Yn y bôn, mae cynhyrchu syniadau'n golygu bod yn fwy creadigol, ac mae creadigrwydd mewn sefydliad We-Think yn elwa nid yn unig ar unigolion ond mewn sawl ffordd, drwy gymysgu cysyniadau a thrwy wrando. Mae rheoli yn yr hen ffordd yn golygu rhoi'r argraff eu bod yn rhedeg y sioe, gwybod yr ateb i bopeth ac yna penderfynu beth sydd angen ei wneud. Mae rheolwyr newydd We-Think yn gwbl groes i hyn.

Y sector cyhoeddus: Mae biwrocratiaethau gwasanaeth cyhoeddus yn aml yn cael eu gyrru gan brosesau, maent yn aml yn rhy feichus ac yn analluog i adweithio'n ddigon cyflym i newidiadau ar gyfer eu cwsmeriaid. Gall sefydliadau o'r fath fod yn ddisymud, yn amharod i newid, yn hunanbarhaol, yn amharod i dderbyn pobl newydd ac yn analluog neu o leiaf yn araf i weithredu syniadau newydd⁵. Yn anffodus, mae'r nodweddion hyn i'w gweld yn S4C a rhaid iddo fabwysiadu nodweddion newydd sefydliad We-Think, a hynny ar fyrder.

⁵ Ibid Tud 146

Amrywiaeth a Rhwydweithiau Byd-eang: Mae sefydliadau agored, cydweithredol ac arloesol hefyd yn amrywiol ac yn rhan o rwydweithiau byd-eang. Gellir diffinio amrywiaeth o safbwynt sgiliau staff y sefydliad, y profiad sydd ganddynt, y rhwydweithiau maent yn byw ac yn gweithio ynddynt, y diwylliant a'r gwerthoedd maent yn eu coleddu. Mae sicrhau bod sefydliad yn un amrywiol (o safbwynt diwylliannol) yn golygu mwy na dim ond adlewyrchu eich cwsmeriaid o fewn y gweithlu (er bod hynny'n bwysig) ond mae'n ymwneud mwy â gallu'r sefydliad i fod yn greadigol, agored ac arloesol. Bydd tîm sydd â'r un cefndir, profiad a gwerthoedd diwylliannol yn meddwl yn yr un ffordd i raddau helaeth, byddant yn mynd i'r afael â phroblemau mewn ffordd debyg, a hefyd, ac yn bwysig iawn, bydd ei allu i gynhyrchu syniadau yn gyfyngedig dros ben ac felly hefyd ei allu i arloesi. Ar y llaw arall, bydd tîm gwirioneddol amrywiol yn meddwl yn wahanol, yn datrys problemau mewn nifer o ffyrdd gwahanol ac yn dod o hyd i ddulliau o gyfuno ei syniadau newydd â syniadau cydweithredol yn fwy effeithiol⁶.

Hefyd, mae sefydliad amrywiol mewn gwell sefyllfa ac mewn rhwydwaith byd-eang gwell na sefydliad sy'n unffurf o safbwynt diwylliannol. Nid yw bod yn rhan o rwydwaith byd-eang yn golygu bod yn gorfforaeth byd-eang ond un sy'n hytrach yn ymwybodol o arferion gorau ble bynnag y bônt yn ddaearyddol neu boed hwy i'w cael mewn sectorau cwbl wahanol o fewn y diwydiant. Dim ond drwy fod yn ymwybodol ac yn agored i lawer o syniadau newydd y gall sefydliad obeithio bod yn fwy arloesol: gan nad yw arloesi bob amser yn golygu dyfeisio cysyniadau cwbl newydd; bydd yn aml yn golygu addasu, cyfuno a datblygu syniadau sy'n bod eisoes yn rhywbeth newydd ac sy'n berthnasol i gwsmeriaid y sefydliad.

Hefyd, dylai S4C fabwysiadu 7 Steps to a Culture of Innovation a ddatblygwyd gan Josh Linkner⁷. Mae wedi edrych ar astudiaethau diweddar o 1,500 o Brif Swyddogion Gweithredol a oedd yn dangos bod arweinwyr yn ystyried creadigrwydd fel y brif nodwedd sydd ei hangen ar arweinwyr i ffynnu. Dyna'r un peth na ellir ei allanoli; yr un peth sy'n hanfodol i sicrhau mantais gystadleuol gynaliadwy. Yn anffodus, nid yw'r rhan fwyaf o sefydliadau'n llwyddo i wneud y gorau o'u hadnoddau mwyaf gwerthfawr: creadigrwydd dynol, dychymyg a meddwl gwreiddiol. Nid oes ganddynt ymagwedd systematig tuag at adeiladu diwylliant o arloesi, ac maent wedyn yn ceisio deall pam nad ydynt yn sefydliadau arloesol ac effeithlon. Mae'r model yn nodi 7 cam allweddol i fod yn sefydliad arloesol:

1. Ennyn Angerdd:

Gyda tîm sy'n llawn angerdd nid oes llawer na allwch ei gyflawni. Heb angerdd, ni fydd eich staff yn ddim mwy na phobl 9 tan 5. Ond nid yw angerdd ar ei ben ei hun yn ddigon ychwaith. Rhaid i sefydliadau sianelu'r angerdd hwnnw i ymdeimlad o bwrpas a rhaid i'r pwrpas penodol hwnnw fod yn amlwg i bawb yn y sefydliad. Hefyd, po fwyaf a phwysicaf yw eich pwrpas, y mwyaf o angerdd y bydd yn ei ennyn ymhlith eich staff a'ch timau.

2. Dathlu Syniadau:

⁶ AnnaLee Saxenian, The New Argonauts: Regional Advantage in a Global Economy, 2006

⁷ Josh Linkner 7 Steps to a Culture of Innovation, 2011 codwyd o Disciplined Dreaming – A Proven System to Drive Breakthrough Creativity 2010

Mae normau diwylliannol mewn busnesau'n cael eu pennu gan yr hyn a ddethlir a'r hyn a waherddir. Mae datganiad cenhadaeth bron pob sefydliad yn cynnwys arloesi, ond eto mae menter a chreadigrwydd yn aml yn cael eu cosbi yn hytrach na'u gwobrwyo. Daw gwobrau mewn sawl ffurf ac yn aml y rhai ariannol yw'r rhai lleiaf pwysig.

Nid yw dathlu creadigrwydd neu gynhyrchu syniadau'n golygu cymhellion ariannol yn unig. Dylid eu dathlu hefyd drwy ganmol (yn fewnol ac yn allanol), cyfleoedd gyrfaol, a chyfrifoldebau newydd. Yn fras, os yw'ch sefydliad am fod yn fwy creadigol, bydd yn rhaid i chi greu amgylchedd sy'n eu gwobrwyo am hynny.

3. Meithrin Annibyniaeth

Mae pawb am gael rheolaeth dros eu hamgylchedd eu hunain. Yn ôl astudiaeth yn 2008 gan Brifysgol Harvard⁸ mae cydberthynas uniongyrchol rhwng pobl sydd â'r gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain a gwerth eu cynnyrch creadigol. Bydd cyflogai sy'n gorfod cael cymeradwyaeth eu pennaeth am bob manylyn lleiaf yn colli pob awydd i fod yn greadigol yn gyflym iawn.

Mae rhoi annibyniaeth hefyd yn golygu ymddiried. Drwy ddiffiniad, gall pob aelod o staff neu dîm wneud penderfyniadau mewn ffordd wahanol. Yr hyn sy'n allweddol yw datgan yn eglur beth yn union mae'r sefydliad yn chwilio amdano neu pa broblem sydd angen ei datrys. Y cam nesaf yw bod y sefydliad yn ymddiried mwy ac yn gadael llonydd i staff a thimau i wneud eu gwaith gorau drwy eu cynorthwyo a gwerthfawrogi eu crebwyll a'u creadigrwydd. Os yw sefydliad yn dangos bod ganddo ffydd yn ei staff dylai gael ei wobrwyo â chanlyniadau positif a gweithlu mwy brwd a hyderus.

4. Annog Dewrder

Adeiladu busnesau sy'n tyfu'n gyflym drwy roi rhyddid i unigolion i gymryd risgiau creadigol heb ymdeimlad o ofn na beirniadaeth. Dywed Linkner fod yn rhaid i arweinwyr sefydliadau annog pob aelod o staff i "Ddweud yr hyn sydd ar eu meddwl, hyd yn oed os yw'n ddadleuol. Gwneud penderfyniadau anodd heb bendroni'n ormodol. Cymryd risgiau clyfar. Cwestiynu gweithredoedd sy'n anghydnaws â'ch gwerthoedd. " Mae hefyd yn dyfynnu cwmni meddalwedd o Boston sy'n rhoi dau "gerdyn dianc o'r carchar" corfforaethol i bob aelod o'r tîm bob blwyddyn. Mae'r cardiau'n galluogi'r deiliaid i gymryd risgiau heb ddioddef canlyniadau unrhyw gamgymeriadau sy'n gysylltiedig â hwy. Mewn cyfarfodydd adolygu blynyddol, mae arweinwyr yn holi aelodau eu tîm os nad yw'r cardiau wedi eu defnyddio yn hytrach na gofyn pam yr oedd angen iddynt eu defnyddio. Mae'n ffordd dda iawn o annog pobl i fentro ac arbrofi. Mae'n ddull mentrus o weithio ond mae'n golygu bod y cwmni'n datblygu llawer o syniadau gwych.

5. Methu Ymlaen

⁸ Amabile & Kramer How to Kill Creativity (1998) a What Really Motivates Workers (2010), Harvard Business Review

Yn y rhan fwyaf o sefydliadau mae cymaint o ofn gwneud camgymeriadau ar bobl fel nad ydynt yn barod i weithredu ar eu syniadau. Mae'n well ganddynt lynu wrth y rheolau a chadw'u pennau i lawr, ond nid yw hynny'n arwain at ddim gwell na dinodedd.

Mae methu ymlaen yn golygu cymryd risgiau a chynyddu'r gyfradd arbrofi. Bydd rhai syniadau'n talu ar eu canfed; bydd eraill yn fethiant ond yr hyn sy'n bwysig yw methu'n gyflym. Mae cyflymder byd busnes wedi cynyddu'n sylweddol iawn ac mae pob munud yn cyfrif. Mae'r busnesau gorau'n rhoi cynnig ar lawer o syniadau ac yn rhoi heibio'r rhai aflwyddiannus yn gyflym ac yn ddiedifar.

6. Meddwl yn Fach

Er nad yw S4C yn gorfforaeth fawr fyd-eang gallai elwa drwy feddwl a gweithredu fel unedau busnes llai. Mae cwmnïau llai yn dueddol o fod yn fwy chwilfrydig a sionc. Mae mwy o ymdeimlad o frys yn perthyn iddynt ac nid oes ofn croesawu newid arnynt. Ar y llaw arall, mae sefydliadau mawr yn aml yn bodoli i amddiffyn syniadau blaenorol yn hytrach na chreu rhai newydd. Yn hytrach na gweithredu fel un sefydliad mawr biwrocraidd gellid rhannu swyddogaethau a thimau.

7. Cynyddu Amrywiaeth

Mae Linkner yn cyfeirio at enghraifft gan Ziba, cwmni arloesi - ymgynghori pwysig o Portland, UDA. Mae'r cwmni'n rhedeg "Rhaglen Llysgenhadon," sy'n rhoi cyfle i gyflogeion dreulio tri mis yn gweithio mewn disgyblaethau eraill, a adwaenir fel 'llwythau." Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae aelod y tîm yn gweithio fel aelod o'r timau hynny. "Mae hyn yn helpu i gael dealltwriaeth o fyd arall," yn ôl Prif Swyddog Gweithredol Ziba. Gall yr amrywiaeth mewn ffordd o feddwl a phersbectif esgor ar greadigrwydd. Mae hefyd yn cael ei weld yng nghanlyniadau busnesau.

Mae amrywiaeth yn ei holl ffurfiau, lliwiau a blasau'n helpu i feithrin diwylliannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth pobl a syniadau; amrywiaeth profiadau gwaith, crefyddau, cenhedloedd, diddordebau, credoau crefyddol, hiliau, hoffterau rhywiol, oed, chwaeth gerddorol a hyd yn oed timau chwaraeon.

I grynhoi, mae'r 7 cam uchod yn gyfrwng syml i drawsnewid S4C i fod yn sefydliad arloesol ffyniannus pe baent yn cael eu gweithredu ochr yn ochr â'r sefydliad We-Think mwy cymhleth ond hynod berthnasol.

ASESU S4C YN ERBYN NODWEDDION SEFYDLIAD WE-THINK⁹ .

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar gyfweiliadau â staff S4C a rhanddeiliaid allanol, sef y sector teledu annibynnol yng Nghymru yn bennaf. Nid oedd bwriad nac amser i gynnal ymgynghoriad llawn (ac yn wir mae llawer o adolygiadau ac adroddiadau eraill wedi gwneud hynny) ond mae fy nhrafodaethau wedi rhoi arlliw clir o'r meddylfryd cyfredol, y problemau a'r agweddau tuag at S4C o safbwynt strategol, diwylliannol a gweithrediadol.

Mae rhai o'r problemau neu'r diffygion gweithrediadol hyn wedi bodoli ers amser maith, a daeth eraill i'r amlwg yn fwy diweddar (o ganlyniad i newidiadau sylweddol yn fewnol ac yn allanol). Mae'n bwysig pwysleisio hefyd bod arwyddion o newid a gwelliannau wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar. Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn ystod cyfnod o fyfyrion mewnol ac ymgynghoriadau allanol, a sgysiau. Felly, mae'n bosibl nad yw rhai o'r newidiadau a'r gwelliannau diweddar iawn wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y canfyddiadau. Er hynny, mae canfyddiadau cyffredinol yr adolygiad hwn yn parhau'n amlwg ac yn berthnasol ac nid ydynt wedi'u heffeithio lawer gan unrhyw newidiadau diweddar gan staff ac Awdurdod S4C.

Diwylliant S4C:

Yn allanol, disgrifiwyd diwylliant S4C fel un cyfrinachgar, gwleidyddol naif, yn drahaus o gofio ei rôl, yr enghraifft waethaf o sut y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ymddwyn, heb ddealltwriaeth o wir natur y gymdeithas Gymraeg, yn profi anallu sylfaenol wrth gyfathrebu â'i randdeiliaid, yn amharod i fentro, yn analluog i ymddiried yn ei gyflenwyr, yn llawn meddyliau ynysig, yn dioddef o ddiffyg creadigrwydd ac yn amharod i newid. Crynhowyd y sefyllfa'n daclus gan un rhanddeiliaid allanol, "Ni fu'n deulu hapus ers blynyddoedd maith".

Yn fewnol, nid yw'r canfyddiadau'n llawer gwell. Mae morâl yn isel ar y cyfan ac nid yw ansierwydd ynghylch y dyfodol yn helpu'r sefyllfa. Ymddengys nad yw'r staff yn ddigon hyderus i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu S4C.

Mae'r diwylliant o ofn, cyfrinachedd, diffyg ymddiriedaeth a rheolaeth ormodol yn parhau: –'Mae gennym ofn dweud dim'; "Nid wyf yn teimlo bod gennyf y rhyddid i wneud fy ngwaith gan fy mod yn cael fy rheoli gan ..."; 'Roedd yn unbennaeth – nid oedd neb yn cael gofyn cwestiynau', 'Anghyfforddus, disgwyl y gwaethaf ac arswyd'; 'Roedd staff yn cael eu rhannu gan ofn ac rydym yn dal i deimlo na allwn siarad â'n gilydd'; "Sut allwch chi fod yn greadigol os ydych wedi'ch clymu gan ofn'; 'Mae pob cymhelliad wedi diflannu'...

Mae problem o hyd wrth i'r staff wrthod rhannu gwybodaeth, heb ddeall rolau'i gilydd a diffyg cydweithrediad – 'Nid yw'n werth y drafferth i hyd yn oed awgrymu syniadau newydd gan na fydd neb yn gwranddo arnynt ac nid yw'n cwestiynau'n cael eu hateb pan fyddwn yn eu gofyn'; "Nid oedd pobl yn ddigon dewr i awgrymu syniadau newydd"; "Pan ymunais gyntaf roedd gwell dealltwriaeth o'r hyn oedd pobl eraill yn ei wneud ac roedd mwy o ryngweithio rhwng adrannau"; "Rydym wedi gweld dirywiad graddol gyda thimau'n mynd

⁹ Charles Leadbeater We-Think: Mass innovation, not mass production 2008

yn fwy a mwy ynysig”; ”Mae fy syniadau’n cael eu gwastraffu; roeddwn yn arfer edmygu S4C, ond nid bellach”...

Er gwaethaf y feirniadaeth allanol, nid yw’r staff yn rhoi wyneb cytûn - ”Nid yw tîm S4C yn bod”; ac mae rhaniadau enfawr rhwng adrannau a thimau, “Mae llawer o agweddau ni a nhw o gwmpas y lle”; “Mae ymdeimlad o ni a nhw rhwng dwy ochr yr adeilad”; “Mae rhai pobl yma er mwyn S4C ond mae’r rhan fwyaf yma er eu mwyn eu hunain – roedd pobl yn arfer gweithio goramser ac yn gwneud gwaith ychwanegol ond mae hynny wedi hen ddiflannu erbyn hyn”.

Roedd S4C yn cael ei weld fel sefydliad creadigol flynyddoedd yn ôl - “Rydym wedi mynd o fod yn greadigol i fod yn unbenaethol”; “Mae ein creadigrwydd wedi cael ei ysbaddu”; “Mae’n ddigon teg cael systemau ond mae wedi mynd yn rhy bell o fod yn greadigol”; “Rydym wedi colli’n gallu i fod yn arloesol, rydym wedi colli’n pwyslais, ac rydym yn sefydliad difrifol iawn yn awr”; “Mae cymaint o haenau o reolwyr erbyn hyn ac mae hynny’n golygu bod unrhyw greadigrwydd yn cael ei ddinistrio”...

Roedd y rhan fwyaf o’r staff yn teimlo bod S4C yn cael ei redeg fel gwasanaeth sifil gwael neu fiwrocratiaeth awdurdod lleol - “Mae ein harferion gweithio’n hen-ffasiwn”; “Roedd pob penderfyniad yn cael ei ddirprwyo i fyny, roedd oedi cyn gwneud pob penderfyniad ac felly roedd pob penderfyniad yn hwyr”; “Rydym yn enghraifft wael o ddiwylliant 9 tan 5 y sector cyhoeddus; “Rydym wedi cael ein gwthio’n ddirugaredd tuag at ffyrdd o weithio sy’n cael eu gyrru gan brosesau”; “rydym wedi mynd o ryddid creadigol i brosesau busnes i lenwi ffurflenni’r sector cyhoeddus”....

Ar y cyfan, mae’r ymatebion hyn gan y staff yn achos pryder. Yn naturiol, roedd ambell aelod o staff yn anghytuno â’r safbwyntiau cyffredinol hyn, ond yn anffodus i S4C roeddent yn lleiafrif bach iawn. Roedd llawer o’r staff yn teimlo bod pethau wedi gwella rhywfaint yn ystod y misoedd diwethaf – roedd eraill yn bendant nad oedd pethau wedi gwella – gan ddweud bod y gwelliannau diweddar ar y trywydd cywir ond bod llawer iawn i’w wneud eto cyn y gall S4C ymgynhyrdd at ddiwylliant gwaith a hapusrwydd mewnol gweithlu prif gwmnïau Cymru, fel Admiral.

“Mae hyn yn ymwneud â chyfathrebu; mae’n ymwneud ag ymddiriedaeth y staff; a rhannu. Busnes pobl yw hwn. Mae pobl fel ein pobl ni mewn cwmnïau eraill ledled y wlad mewn swyddi tebyg iawn ac yn y pen draw mae’r cwsmer yn prynu’r sawl sydd ar ben arall y ffôn. Pan ydych ar y ffôn â rhywun, gallwch synhwyro fod y person hwnnw’n hapus. Mae’n rhoi teimlad gwell o’r cwmni os ydynt.” Henry Engelhart, Prif Swyddog Gweithredol Admiral Insurance¹⁰

Eu Gwerthfawrogi:

Pan ofynnwyd ‘a ydych yn teimlo bod S4C yn eich gwerthfawrogi?’ cafwyd rhaniad 50:50 union bron rhwng ydw a nac ydw. Roedd y rhai ‘ydw’ yn aml yn dweud eu bod yn awr neu fod eu tîm yn eu gwerthfawrogi. Roedd y rhai a ddywedodd ‘nac ydw’ yn amrywio o ‘nac ydw erioed’ i ‘nac ydy, mae’n debyg’ i ‘nac ydi, dim o gwbl’. Unwaith eto, mae hyn yn dangos y dieithrwrch rhwng

¹⁰ Daily Telegraph 2004

aelodau unigol y staff a chenhadaeth S4C. Mae hefyd yn dangos gwendid difrifol yng ngallu S4C i symbylu staff ar adegau anodd. Fodd bynnag, mae hanner y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae hynny'n golygu bod y gwydr yn hanner llawn yn hyn o beth, o leiaf.

Timau, Seilos a Chydweithredu:

Cefais fy synnu o ganfod nad yw timau ac adrannau o fewn S4C yn cydweithredu, yn rhannu syniadau nac yn datrys problemau ar y cyd yn rheolaidd. Yn amlwg, mae cysylltiadau rheolaidd yn bodoli rhwng adrannau a thimau ond mae'r rhain yn aml yn cael eu gyrru gan broses, ac nid yw hynny'n gydweithredu o bell ffordd. Gall trosglwyddo contract o un adran i un arall neu drosglwyddo tâp rhaglen o un tîm i'r nesaf fod yn arwydd o sut y mae pethau'n cael eu gwneud yn awr ond nid yw'n gyfle gwirioneddol i gynhyrchu syniadau ystyrlon nac arloesol sy'n ychwanegu gwerth.

Gwelwyd datblygiadau'n ddiweddar iawn i gynnwys aelodau o swyddi heblaw comisiynu i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd comisiynu, ac mae hwn yn fan cychwyn da. Gwelwyd enghreifftiau diweddar eraill megis y grŵp cyfryngau newydd, ac mae hwn yn rhywbeth y dylid ei ehangu. Byddai pob aelod o staff yn falch o gael ei wahodd i fod yn bresennol ac i gymryd rhan yng nghyfarfodydd timau eraill; ond mae angen rheoli hyn yn ofalus gan fod llawer hefyd wedi dweud bod 'gormod o gyfarfodydd dibwrpas' eisoes. Hefyd, yn aml nid oes cofnodion yn cael eu cadw mewn cyfarfodydd anffurfiol a / neu mae pwyntiau gweithredu aneglur yn arwain at fwy o gyfarfodydd 'digyfeiriad'. Mae cynnwys pobl o bob adran mewn cyfarfodydd allweddol sy'n seiliedig ar dasgau'n hanfodol ar gyfer y ffordd ymlaen ond ni ellir gwneud hyn yn effeithiol nes bydd yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd eraill yn cael ei chwtdogi a bod cyfeiriad pendant i'r cyfarfodydd, e.e. "Cyn i mi gael fy ngwahodd gan y tîm arall, dywedwyd wrthyf beth yn union y dylwn ei wneud. Rwyf am deimlo y gallaf wneud awgrymiadau a chynnig fy syniadau fy hun hefyd"; "Nid oeddwn yn cael gwneud hyn [bod yn bresennol yng nghyfarfodydd timau eraill na rhannu syniadau â thimau eraill] am nad yw pobl yn ymddiried yn ei gilydd"; "Yn hytrach na chydweithredu roeddem ni [ein tîm] yn cael ein hannog i danseilio pob tîm arall, yn union fel tynnu'r ffyn mewn gêm o KerPlunk"; "Ni oedd y tîm olaf yn S4C i fod yn rhan o unrhyw brosiect rhwng timau [er gwaethaf pwysigrwydd eu rôl]"; "Nid oes dim rhannu er bod pawb yn gwybod y byddai hynny'n arbed amser ac arian"; "Rwyf yn awr yn cymryd rhan mewn cyfarfod wythnosol rhwng adrannau, ond nid oes gen i lais yn yr hyn sy'n cael ei drafod a does neb yn gwrando ar syniadau newydd – beth yw'r pwynt?"

Dylai'r pwynt fod yn amlwg. Rhaid i bawb ym mhob tîm deimlo bod eu syniadau neu eu barn yn cael eu gwerthfawrogi. Efallai nad ydynt yn arbenigwyr yn y broses greadigol o gynhyrchu rhaglenni teledu ond maent yn gwylio cynnyrch S4C ac mae ganddynt farn am yr hyn sy'n boblogaidd ac a allai fod yn llwyddiant masnachol. Efallai nad yw'r unigolion dan sylw'n arbenigwyr mewn technoleg na TG ond maent wedi gorfod ymgodymu ag offer annigonol ers blynyddoedd ac maent yn credu bod ganddynt ateb i'r broblem. Rhaid i S4C newid y gred mai "fi w'yf orau" a'r diwylliant 'does neb yn gwerthfawrogi fy syniadau i'. Mae sefydliad We-Think yn gwerthfawrogi pob cyfraniad ac yn gwneud pwynt o'u hannog.

Efallai mai canfyddiad olaf yr adran hon yw'r un sy'n peri'r syndod mwyaf. Roedd staff pob adran a thîm yn unfrydol bron wrth ddweud bod y trefniadau cynllunio mewnol yn wael, os oeddent yn bodoli o gwbl. Mae hyn yn achos pryder ac a dweud y gwir yn annerbyniol. Roedd cynllunio gwael yn aml yn golygu bod popeth cael ei wneud yn hwyr, ar frys, heb ddigon o feddwl, a chanlyniad hynny oedd rhaglenni o safon is ac a oedd fel arfer yn costio mwy na'r angen. Nid yw'r model gweithredol ar gyfer S4C yn un cymhleth, neu o leiaf ni ddylai angen fod mor gymhleth. Yn wir, oni ddylai ei brif swyddogaethau, sef comisiynu rhaglenni, eu hariannu ac yna eu darlledu gael eu gyrru'n gyfan gwbl gan gynllunio? Roedd pob adran a thîm yn aml yn beirniadu'i gilydd am yr oedi neu'r problemau oedd yn gysylltiedig â chynllunio (heb sôn am feirniadu'r sector cynhyrchu annibynnol am eu rhan yn yr oedi: trafodir hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad). Mae'n ddigon posibl y gallai mwy o gyfathrebu mewnol agored, rhannu cyfarfodydd tîm a rheoli gwybodaeth yn well ddatrys y broblem o gynllunio gwael yn gyflym.

Yr Amgylchedd Ffisegol:

Dywedais yn gynharach fod swyddfeydd yn aml yn ofod ffisegol gwael i esgor ar greadigrwydd, cydweithrediad ac arloesi. Cafodd pencadlys S4C ei adnewyddu'n ddiweddar ac fe'i addaswyd yn swyddfa cynllun agored yn bennaf (dywedodd rhai o'r staff fod y cyfarwyddwyr wedi aros mewn swyddfeydd pan oedd gweddill y staff wedi symud i'r swyddfa cynllun agored). Fel arfer mae amgylchedd gwaith cynllun agored o'r fath yn cynyddu cysylltiadau a chydweithredu rhwng staff, ond yn achos S4C ymddengys fod yr effaith wedi bod yn gwbl groes. Gwnaeth nifer o'r rhanddeiliaid allanol a holwyd sylwadau fel "Mae'n ymddangos yn farw'n ddiwylliannol", "Mae'n gwbl dawel" a gofynnwyd pam "mae'r adeilad yn ymddangos mor farwaidd heb ddim lluniau na phosteri". Ymddengys fod polisi i wahardd poster, lluniau a hyd yn oed planhigion; rhaid dileu'r polisi hwn ar unwaith a chaniatáu staff i fynegi rhywfaint ar eu personoliaeth. Gellir crynhoi'r holl sylwadau allanol mewn un datganiad "Fel gofod creadigol, mae'r lle'n sugno fy holl greadigrwydd y funud yr wyf yn cerdded i mewn drwy'r drws".

Gofynnwyd i staff hefyd beth oedd eu barn am yr amgylchedd cynllun agored a sylwais fod y swyddfeydd yn dawel iawn, nad oedd mwyafrif y staff yn defnyddio'r gofod a rennir ac er bod 'y waliau'n cael eu dymchwel yn llythrennol rhwng adrannau a thimau' ni welwyd llawer o dystiolaeth o gyfathrebu rhwng timau. Roedd y staff ar y cyfan yn croesawu'r newid at gynllun agored (ond nid oedd yn unfrydol) ond roedd ffactorau eraill yn eu hatal rhag cyfathrebu a chydweithredu pellach. Roedd y rhain yn amrywio o'r rhaniad amlwg iawn rhwng dwy ochr yr adeilad, "nid oes neb byth yn dod i'n hochr ni o'r adeilad", i'r lleiafrif o'r staff a ddywedodd, "os oes un o fy nhîm i yn siarad ag aelodau tîm arall yna nid ydynt yn gweithio" i'r ymateb mwyaf cyffredin nad yw'r diwylliant gwaith yn S4C wedi annog ac nid yw byth yn annog hyn: "Rwy'n reit hoff ohono ond mae'n achosi amheuaeth"; "Mae mor dawel fel y bydd pawb yn clywed beth ydych yn ei ddweud felly rwy'n tueddu i beidio siarad yn agored"; "mae'n waeth yn awr, mae'r cynllun agored wedi lladd y cysylltiadau rhwng timau'n gyfan gwbl"; "Mae'n well gan bobl gadw pethau iddyn nhw eu hunain, nid yw'n tîm ni am i neb arall glywed ein sgysiau"; "Mae fy lefelau cynhyrchu wedi gostwng gan fy mod yn awr yn dueddol o e-bostio yn hytrach na siarad â phobl"; "Mae pobl yn ofni cael eu gweld yn siarad â

chydweithwyr gan y bydd pobl eraill eisiau gwybod beth sy'n mynd ymlaen"; "Mae wedi lladd unrhyw fwrwm oedd yn y lle"; "Mae gen i ofn eistedd â chydweithwyr eraill"; "Y nod wrth gael cynllun agored oedd rheoli drwy weld beth mae pobl eraill yn ei wneud, ac nid wyf yn credu bod hyn wedi'i wneud am y rhesymau cywir"; "Mae ein tîm ni'n defnyddio'r manau a rennir ond nid oes neb arall yn dod atom"; "Mae'r diwylliant yn anghydnaws â chynllun agored"; "Rhoddodd pobl y gorau i siarad"; "Nid oes neb yn meiddio defnyddio'r gofod a rennir".

Mae'n amlwg nad yw'r adeilad na'r cynllun agored presennol yn galluogi S4C i fynegi nac annog creadigrwydd, cydweithredu nac arloesi. Yn gyntaf, mae angen mynd i'r afael â'r diwylliant o ofn ac amheuaeth sydd ym mhob rhan o'r sefydliad drwy ennyn sgysiau cymunedol, cyfarfodydd mewn gofod a rennir, torri ar y tawelwch gyda cherddoriaeth, sgriniau teledu ac ati a chadarnhau bod cyfathrebu rhwng cydweithwyr yn rhywbeth i'w groesawu. Yn ail, mae angen lleoli pobl mewn timau sy'n seiliedig ar dasgau yn hytrach nag yn eu hadrannau a'u cyfarwyddiaethau pan mae hynny'n bosibl. Yn olaf, mae angen bywiogi'r adeilad, ei wneud yn debycach i rywle sy'n cynhyrchu syniadau drwy osod byrddau gwyn i ysgrifennu a thynnu lluniau arnynt, i ganiatáu staff i ysgrifennu (â marcwyr sych, er enghraifft) ar eu cypyrddau storio, silffoedd, gwydr ac ati. Deuthum ar draws y dull syml hwn o weithio am y tro cyntaf pan oeddwn yn gweithio yn swyddfeydd newydd NESTA yn Llundain ac mae'r cysyniad wedi'i ailadrodd yn swyddfa newydd yr Academi Fyd-eang yng Nghaerdydd. Nid yn unig y mae'n gwneud i'r lle ymddangos yn brysurach (ond yn llai glân a chorfforaethol) ond gall ymwelwyr weld yr hyn rydym yn meddwl amdano, yr hyn rydym yn ei wneud (cynlluniau, syniadau, amserlenni digwyddiadau), maent weithiau'n cynnig sylwadau neu awgrymiadau ac maent hefyd yn cael eu hannog i ysgrifennu ar ein waliau. Sefydliad arall y cyfeirir ato fel lle da i weithio yw Admiral Insurance lle nad oes gan staff ddim codau gwisg, maent yn chwarae gemau ac yn cael hwyl wrth weithio ond maent hefyd yn gynhyrchiol dros ben. Mae digon o le i gael hwyl mewn swyddfa cynllun agored ac nid oes yn rhaid i hyn ddigwydd ar draul lefelau cynhyrchu: y gwrthwyneb sy'n wir.

Staff, dulliau gweithio a buddiannau

Mae hwn yn fater dyrys i geisio mynd i'r afael ag ef ond credaf ei fod yn aml wrth wraidd llawer o'r anawsterau sy'n wynebu S4C. Yn gyntaf, mae pob sefydliad yn sylweddoli bod ganddo broblem os yw lefelau trosiant y staff yn uchel. Yn sicr nid yw S4C yn dioddef o'r broblem hon, mae'n amlwg bod ei staff yn deyrngar. Yn anffodus, mae hyn wedi arwain at lefelau eithriadol o isel o drosiant staff ac, a bod yn onest, yr hyn sy'n ymddangos fel diwylliant o "aros lle ydw i tan y bydda i'n ymddeol". Efallai mai'r rheswm yw bod S4C yn lle mor wych i weithio, roedd rhai staff wedi datgan barn o'r fath, ond beth bynnag fo'u rhesymau nid yw wedi bod yn beth iach i'r sefydliad. Mae 'gwaed newydd' yn hanfodol i bob sefydliad, yn enwedig un lle mae bod yn greadigol yn elfen mor ganolog. Mewn geiriau eraill, mae llawer gormod o bobl wedi bod yn eu swydd neu eu swyddi amrywiol yn llawer rhy hir.

Mae'r pwynt hwn yn arbennig o wir yn yr adran Gomisiynu lle'r ymddengys fod normau'r diwydiant wedi cael eu hanwybyddu neu o leiaf eu newid yn S4C. Mae

golygyddion comisiynu fel arfer yn cael eu rhoi ar gontractau cyfnod penodol (cyfnodau o 5 mlynedd fel arfer) er mwyn sicrhau amrywiaeth greadigol, i annog symud o fewn a rhwng darlledwyr a'r sector cynhyrchu annibynnol ac i feithrin arferion gorau. Wrth argymell y dylai S4C ddychwelyd at gontractau cyfnod penodol ar gyfer ei uwch staff comisiynu, nid wyf yn beirniadu unrhyw unigolion sy'n gweithio neu sydd wedi gweithio yno, ond rwyf yn hytrach yn datgan y gred na ddylai swyddi o'r fath fod yn 'waith am oes' gan nad yw hynny'n llesol i'r broses greadigol. Rwyf yn credu y dylai hyn ddigwydd hefyd yn y diwydiannau celfyddydol a diwylliannol y mae gennyf brofiad helaeth ohonynt.

Yn ail, fel sefydliad sy'n gysylltiedig â'r diwydiannau creadigol, rhaid i'r diwylliant 9-5 newid – ac felly hefyd yr awr ginio haearnaidd rhwng 1 a 2 pm. Nid wyf yn dadlau dros oriau gwaith hwy ond oriau sy'n ymdebygu fwy i'r sector preifat ac yn sicr i'r diwydiannau creadigol a diwylliannol, lle mae rhai staff yn dod i mewn yn gynnar ac eraill yn hwyrach ac yn aros tan iddynt orffen y gwaith. Cefais fy synnu wrth weld cyn lleied o bobl oedd yn dod i mewn cyn 8am a chyn lleied oedd yn dal yno ar ôl 5.30pm. Mae'n anodd creu diwylliant gwaith iach a byrlymus, ond rhaid i S4C geisio gwella hyn ar fyrder.

Mae buddiannau staff hefyd yn achos pryder, yn enwedig i rai y tu allan i S4C. Dylid rhoi'r gorau i'r yswiriant iechyd preifat gan nad oes modd cyfiawnhau'r gost ychwanegol ac fel y dywedodd y Pwyllgor Materion Cymreig nid yw'n briodol i wario arian y trethdalwr ar ddarpariaeth iechyd breifat. Mae'r gwyliau ychwanegol, hyd at 32 diwrnod, yn ymddangos yn ormodol mewn cyfnod o gwtogi ariannol. Rwyf yn argymell y dylid cadw lwfans y feithrinfa gan fod hyn yn annog pobl iau, yn enwedig merched, i weithio yn S4C, ond dim ond ar gyfer y rhai ar y graddfeydd cyflog is. Dylid rhoi'r gorau i geir cwmni cyn gynted â phosibl. Mae'r cymhorthdal bws i'r dref, er yn fychan, yn amlwg yn gwbl hurt. Ni ellir cyfiawnhau ychwaith y pecynnau teledu, DVD a Sky at ddefnydd yn y cartref hyd yn oed o gofio natur y gwaith (dylid hefyd ystyried adennill y costau neu ofyn am gael yr offer yn ôl). Mae costau'r gwersi Cymraeg yn ymddangos yn uchel ar gyfer y nifer fach sy'n manteisio arnynt; dylid un ai ddod o hyd i gysiau rhatach neu chwilio am aelod addas o'r staff i gynnal y gwersi Cymraeg eu hunain (rydym wedi mabwysiadu trefn fewnol debyg ym Mhrifysgol Cymru). Mae'r clwb cymdeithasol yn boblogaidd ymhlith staff ond dylid edrych arno eto i weld a ellir ei gyfiawnhau mewn gwirionedd.

Telir cymhorthdal o tua £160K y flwyddyn tuag at redeg y ffreutur. Dylid diddymu'r cymhorthdal hwn ar unwaith; a all S4C gyfiawnhau hyn o'i gymharu â diogelu swyddi mewn difrif? Rhaid gofyn wedyn beth ddylid ei wneud â'r ffreutur ei hun a'i staff. Gellid un ai ei gau'n gyfan gwbl neu gan fod arian sylweddol wedi'i wario ar adnewyddu'r cyfleusterau gellid rhoi cyfle i staff y ffreutur neu gwmni allanol ei redeg fel busnes. Mae digon o swyddfeydd a chyflogwyr eraill yn y cyffiniau i alluogi busnes i geisio denu cwsmeriaid newydd. Ni ddylai'r posibilrwydd o agor y ffreutur am lawer mwy o oriau a chynhyrchu incwm i goffrau S4C fod y tu hwnt i allu unrhyw fusnes arlwyio craff. Gwnaethpwyd asesiad manwl o'r cyfleusterau arlwyio yn ddiweddar a byddai digon o wybodaeth ynddo i alluogi unrhyw ddarparwr allanol i ystyried rhagolygon ariannol sefydlu menter newydd.

Byddai newidiadau i'r buddiannau staff hyn yn arbed o leiaf £350K y flwyddyn, ac yn bwysicach na dim byddai'n dangos i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r sector annibynnol bod S4C o ddifrif ynghylch arbed arian.

Mae angen newid mwy cynnil yn y ffordd y mae staff yn gweithio, eu swydd ddisgrifiadau penodol a datblygu mwy o sgiliau a rennir. Mae adrannau, timau a rolau wedi datblygu mewn ffyrdd cyfyngol gyda llawer o staff un ai'n dweud bod ganddynt sgiliau nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan fod y sgiliau hynny'n rhan o gymwyseddau craidd timau eraill a'u bod wedyn yn cael eu hanwybyddu, neu os ydynt yn gofyn am gael eu hyfforddi, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, i wneud tasgau eraill maent yn cael eu rhwystro gan gydweithwyr cenfigennus sy'n poeni y byddant yn 'gwneud eu gwaith hwy'. Cynigir dull cwbl newydd o drefnu staff yn yr adrannau canlynol ond fel cyflwyniad dylid cyflwyno swydd ddisgrifiadau llawer mwy hyblyg, ynghyd â chyfleoedd i bob aelod o staff ymuno â phrosiectau gorchwyl a gorffen ar draws y sefydliad (beth bynnag fo'u graddfa, eu sgiliau neu eu gallu technegol) a dylid gwneud pob ymdrech i ddiddymu prosesau biwrocraidaidd dibwynt.

Mae'r angen i roi sylw i gyfathrebu mewnol yn parhau. Cafodd adolygiad manwl o gyfathrebu mewnol hefyd ei gynnal yn gymharol ddiweddar. Mae'n frawychus nad yw mwyafrif ei ganfyddiadau byth wedi'u cyflawni. Mae rhai newidiadau positif yn amlwg: swydd newydd benodedig, mewnwyd yn cael ei datblygu, ac, yn ddiweddar iawn, cyfarfodydd i'r holl staff. Ond yn anffodus, dengys adborth y staff yn gyffredinol, bod llawer o waith i'w wneud eto cyn y bydd cyfathrebu mewnol yn rhywbeth ystyrion ac y gellir ymddiried ynddo. Ymddengys fod dull o'r brig i lawr yn weithredol o hyd yn hytrach nag ymdrech ddilys i gael deialog agored yn y sefydliad. Os yw S4C am fod yn sefydliad sy'n seiliedig ar We-Think rhaid iddo wella'i drefniadau cyfathrebu mewnol ar frys. Byddai annog y staff i siarad mwy â'i gilydd wyneb yn wyneb yn fan cychwyn hawdd. Mae mewnwyd a mathau eraill o gyfathrebu digidol fel blogiau ac ati'n gyfryngau defnyddiol iawn ond nid os nad oes gennych ddiwylliant lle mae cyfnewid barn mewn ffordd agored ac onest yn digwydd eisoes. Nid yw S4C eto'n barod i ddibynnu ar ddulliau cyfathrebu mewnol mor amhersonol yn unig. Rhaid sgwrsio yn y ffordd hen-ffasiwn yn gyntaf, e.e. cyfarfodydd staff rheolaidd, sgwrsiau rhwng desgiau, sesiynau cynhyrchu syniadau dros baned – ac yna defnyddio TG i gysylltu'n fwy cyson; ac nid y drefn arall. Mae'r adroddiad a baratowyd eisoes ar gyfathrebu mewnol yn cynnwys digon o fanylion ar sut i wella pethau, y peth pwysig yw gweithredu, a hynny cyn gynted â phosibl.

Mater arall sy'n gysylltiedig â hyn yw polisiâu mewnol. Ymddengys fod S4C yn cynhyrchu cymaint o bolisiâu ag y mae o raglenni. Dywedodd mwyafrif llethol o staff fod llawer gormod o bolisiâu (a gweithdrefnau) yn cael eu creu, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud nad ydynt yn eu darllen hyd yn oed pan mae un newydd yn cael ei ddsbarthu. Dylid cael gwared ar bob polisi heblaw am y rai hanfodol. Oni bai bod y polisi'n gwella effeithlonrwydd neu'n ychwanegu gwerth at y cynnyrch creadigol, byddwn yn erfyn ar S4C i gael gwared arno. Dylid rhyddhau staff i wneud penderfyniadau ac i gydweithredu, a pheidio rheoli drwy reolau a rheoliadau.

Yn olaf, rhaid dychwelyd at y mater sensitif hwnnw, sef amrywiaeth. Mae gan S4C ddadansoddiad manwl iawn o gyfansoddiad ei staff, a dylid croesawu

hynny. Mae'r dadansoddiad hwnnw, fodd bynnag, yn edrych ar gydraddoldeb. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar amrywiaeth fel ffactor allweddol ar gyfer arloesi. Gan edrych ar y canlyniadau o'r persbectif hwn yna mae S4C yn wan unwaith eto. Nid yw S4C yn sefydliad amrywiol o safbwynt cenedligrwydd, cefndir diwylliannol ac ethnig, na chrefydd. Nid yw hyn yn annisgwyl o gofio mai ei gylch gwaith yw comisiynu rhaglenni teledu Cymraeg, ond mae'n siŵr y dylai allu gwneud yn well nag y mae. Mae'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith yn fwy amrywiol heddiw nag oedd 20 mlynedd yn ôl. Daw siaradwyr Cymraeg o bob cefndir diwylliannol yng Nghymru, ac mae llawer ohonynt yn ifanc ac wedi'u hyfforddi mewn sgiliau fel cynhyrchu rhaglenni teledu, materion cyfreithiol ac yn y blaen, a gellid eu recriwtio i ymuno â'r sefydliad. Gall fod yn beryglus pan fydd sefydliadau, ac yn enwedig arweinwyr, yn amgylchynu eu hunain â phobl o'r un meddylfryd, oherwydd pwy yn y sefydliad all edrych ar bethau o safbwynt gwahanol? Mae amrywiaeth, yn ei holl ffurfiau, yn hanfodol ar gyfer sefydliad We-Think.

Pan holais am y mater hwn dywedwyd wrthyf fod S4C yn ceisio recriwtio staff o gefndiroedd amrywiol ond na fu'n llwyddiannus: nid yw'n cael ceisiadau. Nid yw'n hynny'n syndod mawr gan ei fod yn cael ei weld fel sefydliad un diwylliant. Nid yw newid hyn yn mynd i ddatrys popeth dros nos, ond mae sawl peth y dylid eu gwneud:

- gwneud mwy o ymdrech i adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol o fewn delwedd gorfforaethol S4C, ac wedyn efallai y byddai trawstoriad ehangach o bobl yn cynnig am y swyddi
- trefnu cynlluniau hyfforddi Gweithredu Cadarnhaol tebyg i rai'r BBC
- ymweld ag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd â myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol

Efallai mai'r awgrym mwyaf radical fyddai ystyried yn ofalus pa swyddi y gellid eu llenwi gan bobl ddi-Gymraeg. Rwyf yn llawn sylweddoli sensitifrwydd argymhelliad o'r fath ond ni allaf bwysleisio digon na ddylai sefydliad We-think ddewis a dethol o blith nodweddion allweddol: dylai ymdrechu i gael y cyfan.

ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

Rwyf eisoes wedi argymhell newidiadau i fuddiannau'r staff a chyfleusterau'r ffreutur, a fydd yn cael effaith bositif ar y costau rhedeg ar unwaith. Dylai camau eraill ymddangosiadol gysylltiedig gynnwys:

- **Gwerthu neu rentu'r adeilad a'r tir y tu ôl i bencadlys S4C nad ydynt yn cael eu defnyddio:** os yn bosibl i gwmni sy'n gysylltiedig â chynhyrchu rhaglenni teledu. Mae trafodaethau a gafwyd â'r sector teledu annibynnol wedi awgrymu'n gryf na fyddent yn edrych yn amheus ar hyn nac yn credu y byddai'r cwmni'n cael unrhyw ffafrau arbennig, fel yr oedd rhai yn S4C yn ei ofni. Credaf y byddai unrhyw ddatblygiad sy'n diogelu cyllidebau comisiynu'n cael ei groesawu gan bawb.
- **Trwyddedu BSM:** Adolygu'r rhesymau pam na ellir gwerthu'r system meddalwedd BSM i ddarlledwyr eraill ledled y byd. Er ei bod yn ymddangos bod prynu'r meddalwedd hwn wedi atal ailwerthu trwyddedau o'r fath, mae gan bawb ei bris, ac mae hynny'n siŵr o gynnwys perchennog gwreiddiol BSM. Mae modd ail-negodi contractau. Mae adnoddau sylweddol wedi cael ac yn parhau i gael eu neilltuo i ddatblygiad BSM. Os yw'n feddalwedd mor dda â hynny yna efallai y byddai ddarlledwyr eraill yn awyddus i'w brynu, hyd yn oed os yw hyn yn golygu rhannu eiddo deallusol a breindaliadau â'r perchennog gwreiddiol. Byddai incwm bychan hyd yn oed yn helpu i adennill yn uniongyrchol y costau a wariwyd gan S4C ar BSM.
- **Adolygu perchnogaeth y Pafiliwn ar Faes y Sioe Frenhinol:** Mae bod yn berchennog ar adeilad sy'n cael ei ddefnyddio am wythnos yn unig bob blwyddyn yn ymddangos yn aneffeithlon a chostus. Ymddengys hefyd nad yw bellach yn addas am nad oes mynediad digonol iddo ar gyfer pobl anabl. A ellir ei werthu, neu ei hurio yn ystod digwyddiadau eraill, a yw S4C mewn gwirionedd yn arbed arian drwy fod yn berchen ar yr adeilad?
- **Archif S4C:** Mae gwerth masnachol sydd heb ei wireddu ynghlwm wrth archif S4C. Mae rhai cynhyrchwyr annibynnol wedi hawlio eu hawliau yn ôl, ond mae eraill wedi dweud y byddai'n well ganddynt i S4C eu cadw a'u defnyddio er budd S4C yn unig a buddsoddi unrhyw incwm ychwanegol mewn comisiynau. Hefyd, mae'r ffordd yr edrychir ar archif S4C wedi dyddio. Nid yn unig y mae gan S4C raglenni a all fod o werth eto neu ddim drwy eu hailddefnyddio, ond mae ganddo hefyd gynnwys pe cai ei ddigido a'i gofnodi'n gywir a all fod ar gael i gwmnïau cyfryngau heblaw teledu. Os yw'r cynnwys yn cael ei drin fel 'talpiau' o ddeunydd digidol yna gallai siop cronfa ddata ar-lein effeithiol alluogi chwaraewyr gemau, cynhyrchwyr apps ffôn neu unrhyw un sy'n gweithio ym maes y cyfryngau digidol i wneud cais am drwydded i ddefnyddio'r cynnwys hwn. Nid oes yn rhaid i S4C hyd yn oed feddwl am ddefnydd posibl i'r cynnwys, yr unig beth fyddai angen ei wneud fyddai creu ffordd i ddangos amrywiaeth y cynnwys mae'n berchen arno i eraill. Er enghraifft, gallai datblygwr app ffôn sydd eisiau cynhyrchu gwybodaeth a chlïpiau wedi'u tagio â gwybodaeth

ddaearyddol ar gyfer twristiaid yng Nghymru brynu ffilm o fwy neu lai unrhyw dref a phentref yng Nghymru. Gallai'r cwsmeriaid ar gyfer deunydd o'r fath ddod o bob rhan o'r byd, ond os nad ydynt yn gwybod bod y cynnwys ar gael a'u bod yn gallu ei weld yn rhwydd nid ydynt yn mynd i ofyn am ei brynu. Gan fod hwn yn brosiect mawr ychwanegol i S4C mae yna bobl, sefydliadau a chynlluniau yng Nghymru a allai helpu S4C i'w gyflawni, fel deiliad y Gadair mewn Casgliadau Digidol, sydd newydd ei chreu yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Comisiynu

Yn gyntaf, fel y dywedais eisoes, dylai uwch staff comisiynu gael eu rhoi ar gcontractau cyfnod sefydlog. Yn ail, rwyf yn argymhell dychwelyd at rolau golygydd comisiynu yn hytrach na golygyddion cynnwys. Mae'r sefyllfa bresennol yn ychwanegu at y gred bod S4C yn rhoi llawer gormod o bwyslais ar ochr anghywir y broses gomisiynu. Dylai comisiynwyr fynd allan llawer mwy nag y maent: gan ymweld yn rheolaidd â chwmnïau cynhyrchu annibynnol; gweld mwy o waith cysylltiedig yn y sector ffilm a chelfyddydau, er enghraifft; bod yn fwy agored ac ar gael i syniadau creadigol gan dalent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg, ac yn fwy na dim bod yn barod i rannu eu gweledigaeth lefel uchel am gomisiynau (egluo i'r sector annibynnol yr hyn yr hoffent ei weld yn cael ei gynhyrchu fel rhaglenni newydd). Mae hyn yn gwbl groes i'r arferion presennol, yn ôl y rhai a holwyd. Ymddengys fod proses gomisiynu bresennol S4C yn canolbwyntio mwy ar y cynnyrch creadigol terfynol nag ar deimlad cyffredinol y sianel.

Hefyd dylai Golygyddion Comisiynu fod yn rhan fwy amlwg o rwydwaith anffurfiol i adnabod talent a datblygu talent. Mae'r sawl sy'n gweithio yn y meysydd ysgrifennu sgriptiau, cyfarwyddo ac actio yn fwyaf arbennig, yn symud rhwng teledu, ffilm a theatr. Dylid cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Golygyddion Comisiynu S4C a sefydliadau eraill gan gynnwys Asiantaeth Ffilm Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Theatr Genedlaethol Cymru, nid yn unig i ganfod talent ac i helpu i ddatblygu syniadau creadigol ond hefyd i ystyried cydweithredu a chydgyrchiadau posibl.

Rwyf yn cytuno â'r argymhelliad i gael 5 Golygydd Comisiynu (Plant, Drama a Chomedi, Ffeithiol, Digwyddiadau ac Adloniant gan gynnwys y Celfyddydau a Cherddoriaeth, a Chwaraeon) ond ni allaf weld cyfiawnhad dros gael swydd cynorthwydd ar gyfer pob un. Nid wyf ychwaith yn cytuno â'r farn bod angen swydd gyffredinol Pennaeth Rhaglenni: byddwn yn hytrach yn ystyried rhoi'r cyfrifoldeb hwnnw yng ngofal y Prif Swyddog Gweithredol newydd.

O ran gwneud S4C yn fwy effeithlon a gobeithio yn fwy creadigol ac arloesol, rwyf yn argymhell symleiddio'r holl broses gomisiynu. Mae'n debyg bod brîff S4C yn fwy manwl a chymhleth na rhai darlledwyr eraill yn y DU. Pam? Onid yw S4C yn ymddiried yn ei gynhyrchwyr annibynnol er eu bod yn cynhyrchu rhaglenni hefyd i'r un darlledwyr sydd yn amlwg wedi gwneud pethau'n haws ac yn symlach i bawb dan sylw? Symleiddiwch y brîff a gallwch leihau amser staff a'r nifer sydd eu hangen i negodi'r brîff o fewn S4C a hefyd o fewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae amser yn arian ac ymddengys fod S4C yn araf mewn sawl agwedd ar y broses gomisiynu. Yn hytrach na micro reoli dylai S4C fod yn rheoli creadigrwydd a'i gynnyrch yn strategol.

Pam mae mwyafrif y rhaglenni'n cyrraedd y cam cyn-gynhyrchu, a chynhyrchu llawn weithiau cyn y bydd S4C wedi llofnodi contract? Mae hyn yn achos pryder a chwyno o blith staff S4C eu hunain yn ogystal â'r sector annibynnol. Ni ddylai staff orfod mynd ar ôl pobl i lofnodi briffiau a chontractau yn derfynol. Hefyd, pam mae'n rhaid i gymaint o bobl lofnodi briff comisiwn neu gontract yn derfynol? Mae gormod o haenau o fiwrocratiaeth ddiangen ynghlwm wrth y prosesau comisiynu a chontractio a rheoli costau yn awr. Dylid grymuso golygydd comisiynu i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn eu genre. Dylent gael awdurdod creadigol ac yna'u barnu ar sail eu portffolio o raglenni a gomisiynwyd. Yr hyn nad wyf yn ei gynnig, er hynny, yw nad oes neb arall yn rhan o'r broses. Dylid cynnwys pobl o'r adrannau ymchwil, marchnata, materion cyfreithiol, amserlennu a rheolwyr yr uned materion busnes, er enghraifft, a all fynegi barn ar ba raglenni sy'n cael eu comisiynu a pha rhai a wrthodir. Ond peidied â chael haenau di-ri yn lofnodi o fewn yr adrannau Comisiynu a Materion Busnes yn unig. Pam mae S4C yn dal i fynnu bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn cyflwyno llawer mwy o waith papur na darlledwyr eraill? Er enghraifft, mae mynnu cael pob ffurflen ryddhau yn henffasiwn ac mae'n wastraff amser ac arian i S4C a'r cwmnïau cynhyrchu. Oni all contractau S4C eu diogelu rhag torri rheoliadau? Yn hytrach na mynnu bod gwaith papur pob comisiwn yn cael ei archwilio'n llawn, gellid cynnal hapwiriadau blynyddol yn unig. Os canfyddir problemau yna dylid mynd ati i'w datrys yn uniongyrchol gyda'r cwmni cynhyrchu dan sylw. Dylai lleihau nifer y bobl sydd ynghlwm wrth brosesau gweinyddol diangen olygu bod y broses gynllunio hefyd yn cael ei gwella drwy symleiddio amrediad y bobl sy'n gysylltiedig â hi.

Tendro

Mae hyn yn amhoblogaidd yn gyffredinol ymhlith y sector annibynnol. A yw mewn gwirionedd yn helpu i leihau costau comisiynu? Gallaf ddeall yr achos pan mae'r tendr ar gyfer briffiau nad ydynt yn creadigol o gwbl e.e. y tywydd neu ddarllediadau digwyddiadau allanol ond os mai creadigrwydd yw'r peth pwysicaf nid wyf wedi fy argyhoeddi ei fod yn arwain at effeithlonrwydd. Efallai ei fod yn gwthio'r prisiau terfynol yn is ond ar ôl ystyried y costau gweinyddol mewnol ac allanol yn llawn, a yw S4C yn argyhoeddedig y gellir ei gyfiawnhau'n ariannol? Mae'n sicr ei fod yn mygu creadigrwydd ac mae'n debygol ei fod yn rhwystro yn hytrach nag annog newydd-ddyfodiaid. Hefyd, a oes cymaint â hynny o gwmnïau, er enghraifft, a all dendro i gynhyrchu ac i ddarlledu'r fformat cylchgrawn dyddiol yng Nghymru? Dylai S4C fedru mynd at y cwmnïau sydd â'r gallu hwn a negodi'n uniongyrchol â hwy. Dylai ymdrechu i wneud popeth yn symlach a thrwy hynny leihau'r amser staff a neilltuir fod yn nod bwysig i S4C. Rwyf yn argymhell yn gryf y dylid lleihau neu ddileu'n gyfan gwbl y broses dendro faith ac amhoblogaidd.

Cyd-gynyrchiadau a chyd-ariannu

Mae hwn yn fater anodd. Mae'r adroddiad wedi edrych ar y mater hwn o safbwynt y goblygiadau i brosesau gweithredol a chostau. Ar yr un llaw, mae'r mwyafrif, ond nid pawb, yn y sector annibynnol o blaid dychwelyd i'r ffordd hon o weithio. Ond maent yn amheus o'r rhesymau pam mae S4C yn ystyried

dychwelyd ati. Yn eu barn hwy, mae llawer o gomisiynau'n anaddas gan fod y cynnwys mor benodol i Gymru / y Gymraeg ac mae'n golygu bod angen llawer mwy o amser ac ymdrech i gytuno ar gomisiwn. Mae hynny'n amlwg yn wir. Ar y llaw arall, maent yn cydnabod bod cyd-gynhyrchu'n beth da i Gymru (maent yn codi ymwybyddiaeth o wneuthurwyr o safon); dylai helpu S4C a'u sefyllfa ariannol eu hunain os gellir gwerthu rhaglenni (a'u hailwerthu) i ddarllledwyr eraill, ac mae'n aml yn helpu'r safonau creadigol gan fod mwy o bobl ynghlwm wrth y broses. Ond os yw hyn yn golygu llai o arian ar gyfer gwneud rhaglenni neu os yw S4C yn gwrthod bod yn fwy hyblyg o ran syniadau creadigol a briffiau ni chânt eu hargyhoeddi.

Felly, os bydd S4C yn mynd i'r cyfeiriad hwn, a chredaf y dylent, yna rhaid bod yn ofalus i beidio gorgymhlethu prosesau unwaith eto. Ni ddylai gymryd oesoedd i gytuno ar friffiau a chontractau ac ni ddylai gynnwys dim mwy o bobl na'r angen. Yn amlwg, mae cynnwys eraill yn y broses o gyllido a chyd-gynhyrchu rhaglenni yn gwneud y tasgau hyn yn fwy cymhleth ond dylai'r cynnydd yn y refeniw a gaiff S4C wneud iawn am hynny (a thrwy hynny gyfiawnhau unrhyw staff ychwanegol fydd eu hangen i wneud cyd-gynyrchiadau'n bosibl). Ond y pwynt allweddol i S4C yw datblygu ei strategaeth gyd-gynhyrchu greadigol ochr yn ochr â'i brosesau busnes gweithredol symlach.

Dylai S4C hefyd ystyried cynyddu nifer y cyd-gynyrchiadau ffilm a ariennir ganddo. Mae S4C yn sefydliad diwylliannol allweddol yng Nghymru a dylai ei rôl fel cyllidwr 'cyntaf i mewn' gael ei chymryd o ddifrif. Rwyf yn argymhell bod S4C yn cwrdd ag Asiantaeth Ffilm Cymru yn rheolaidd i drafod cydweithredu llawer mwy clos yn y gobaith y bydd hynny'n arwain at fwy o gyd-gynyrchiadau ffilm Cymraeg neu ddwyieithog.

Tariffau, costau cynhyrchu a Thelerau Masnach

Mae'n ymddangos bod y sector annibynnol yn edrych yn ddirmygus ar y cysyniad o dariffau, ac mae S4C yn ei ddehongli'n wahanol. Nid oedd modd i'r adroddiad hwn (oherwydd y cyfyngiadau ar amser) gynnal dadansoddiad o'r gwahanol dariffau ac ystodau'r gwahanol gostau cynhyrchu yn y sector, ac mae felly'n cyflwyno'r dystiolaeth a roddwyd i mi.

Yn S4C mae'n ymddangos mai canllawiau yn unig yw tariffau sy'n sail i drafodaethau ar brisiau comisiynau unigol. Rwyf yn deall y sefyllfa, ond rwyf yn gofyn a yw S4C wedi meincnodi ei dariffau'n ddigonol yn erbyn rhai darllledwyr eraill. Yn sector teledu'r DU gwelwyd tuedd graddol, ond arwyddocaol i leihau cost fesul awr rhaglenni yn ystod y 5 i 8 mlynedd diwethaf. Rwyf wedi cael fy arwain i gredu nad yw S4C wedi dilyn y duedd hon. Hefyd, awgrymwyd fod amrywiadau pendant a heb reswm, mae'n ymddangos, rhwng y pris mae S4C yn ei dalu i un cynhyrchydd annibynnol o'i gymharu â'r hyn a delir i un arall am raglenni tebyg iawn.

Hefyd, i ba raddau mae S4C yn gyfarwydd â'r arferion cynhyrchu gorau y tu allan i Gymru, megis gwelliannau technolegol sy'n lleihau'r amser cynhyrchu a'r lefelau staffio? Dylai sicrhau fod effeithlonrwydd o ran costau a pharedd

rhwng prisiau cwmnïau cynhyrchu yn hanfodol os yw S4C am wella a chynnal rhaglenni o safon gyda chyllideb gomisiynu lai.

Ond mae cyfrifoldeb ar y sector annibynnol hefyd o ran costau cynhyrchu. Roedd fwy neu lai pob cwmni annibynnol a holwyd yn teimlo eu bod yn cynhyrchu rhaglenni'n rhatach ac yn fwy effeithlon na'u cymheiriaid (y gystadleuaeth). Mae'n amlwg na all hyn fod yn wir. Mae cyfrifoldeb moesol ac angen busnes ar gwmnïau cynhyrchu annibynnol i ostwng prisiau rhaglenni ar gyfer S4C. Mae'r achos busnes yn fwy amlwg. Oni bai eu bod yn parhau'n gystadleuol o ran pris ni allant ddisgwyl i S4C barhau i gomisiynu eu syniadau am raglenni 'beth bynnag fo'r gost'. Nid yw hyn wrth gwrs yn golygu bod prisiau'n gostwng i lefelau sy'n amhroffidiol ac felly'n anghynaliadwy – ni fyddai hynny'n gwneud synnwyr busnes – ond mae cydnabod y bydd yn rhaid i gronfa gomisiynu S4C ymestyn ymhellach yn y dyfodol yn golygu y bydd mwy o baredd rhwng prisiau rhaglenni a gomisiynir ar gyfer S4C, BBC, C4, ac ati yn hanfodol.

Nid yw hynny'n golygu nad yw'r sector cynhyrchu annibynnol yn mynd i'r afael â'r materion hyn eisoes. Maent wrthi'n gwneud hynny. Er enghraifft, mae cyfathrebu gwell rhwng cwmnïau'n ymdrechu i sicrhau bod cynyrchiadau mawr yn cael eu hamseru ar adegau gwahanol os yn bosibl i leddfu'r pwysau i recriwtio cyfleusterau, offer a gweithwyr llawrydd ar yr un pryd.

Mae trafodaethau â'r sector cynhyrchu ar effeithlonrwydd gweithredol hefyd wedi cynnwys y 'Telerau Masnach' a gyflwynwyd yn 2004. Ers eu cyflwyno, mae'r Telerau Masnach newydd wedi rhoi'r hawliau masnachol yng ngofal y cynhyrchwyr annibynnol. Er bod y rhan fwyaf o agweddau'r newid hwn y tu hwnt i gylch gorchwyl yr adroddiad hwn, mae rhai agweddau sy'n gysylltiedig â'r modd y mae'r Telerau Masnach a swyddogaethau cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n gwbl berthnasol. Yn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â chadw swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thaliadau talent (Equity, WGGB, MU, a MCPS). Roedd sawl ymatebwr allanol yn teimlo y dylid gwrthdroi hyn a rhoi'r cyfrifoldeb yn ôl ar y sector cynhyrchu annibynnol, gydag indemniad posibl ar eu rhan yn cael ei ymgorffori yn y Telerau Masnach. Byddai hyn yn cael nifer o effeithiau dymunol:

- Lleihau'r angen am staff nad ydynt yn gweithio ar raglenni yn S4C i ymgymryd â gwaith o'r fath.**
- Cynyddu aeddfedrwydd yn y sector drwy annog cwmnïau i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn.**
- Cael gwared ar yr angen am brosesau yn S4C yn sgil cynnwys indemniad gan gynhyrchwyr ar hawliau clirio ac yn y blaen.**
- Cyflymu taliadau terfynol a llofnodion terfynol a gofynion archwilio ar gyfer rhaglenni unigol; a lleihau maint mantolenni sy'n cael eu cario drosodd sy'n codi i S4C ac sy'n aml yn dyddio'n ôl 5 mlynedd a mwy.**

Dylai S4C sicrhau ar fyrder ei fod yn cynnal adolygiad o'r modd y mae'r Telerau Masnach yn cael eu gweithredu. Yng nghyd-destun y materion hyn ymddengys fod y ffordd y mae Telerau Masnach S4C yn cael eu gweithredu'n wahanol i

arferion darlledwyr eraill yn y DU a chostau 'statudol' heblaw rhaglenni. Efallai bod rhesymau dilys dros y gwahaniaethau ond oni bai bod y rhesymau hyn yn cael eu hategu gan arbedion gweithredol pendant ymddengys y byddai'n anodd cyfiawnhau eu cadw. Byddwn yn annog Awdurdod S4C i ofyn am gyngor allanol yma gan nad wyf wedi gallu gwneud gwaith manwl ar y mater hwn.


Yn gryno, mae angen i S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol gydweithio'n agosach ac edrych ar ei gilydd fel 'aelodau o'r un tîm'; ac mae'n amlwg nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

Ailfodelu S4C fel sefydliad We-Think

I grynhoi, rwyf yn cynnig bod S4C yn ymdrechu i fod yn sefydliad We-Think er mwyn iddo arddangos nodweddion sefydliad creadigol, agored, arloesol, sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n hyblyg, sy'n cael ei arwain o'r gwaelod i fyny, ac sy'n amrywiol a chydweithredol. Mae angen i S4C fod yn llai biwrocraataidd, llai cyfrinachgar, yn cael ei yrru lai gan brosesau, yn llai ynysig a llai araf yn weithrediadol. Hefyd mae angen i S4C arbed arian pa bryd bynnag y bydd hynny'n weithredol bosibl.

Mae'r strwythur presennol a'i ffyrdd o weithio'n cynnwys gormod o haenau fertigol o fiwrocraatiaeth, awdurdodi a llofnodi terfynol cyn y bydd syniad creadigol yn frîff terfynol ac yn datblygu drwy'r sefydliad nes bydd y rhaglen wedi'i gwneud a'i darlledu. Er enghraifft, mae syniadau creadigol gan gynhyrchwyr annibynnol yn cael eu trafod drwy'r adran Gomisiynu ac yna mae angen lefelau amrywiol o lofnodion terfynol adrannol mewnol cyn y daw syniad creadigol yn frîff creadigol y cytunwyd arno ac yn cael ei drosglwyddo i'r adran Materion Busnes, sydd wedyn yn ailadrodd y broses ormodol o ddsbarthu dogfennau a gwybodaeth yn fewnol cyn troi'r brîff yn gontract. Mae ailadrodd prosesau o'r fath yn digwydd drwy'r holl adrannau.


Mae'r diagram isod yn dangos enghraifft wedi'i symleiddio o strwythur presennol y cyfarwyddiaethau a'r prosesau gweithio.



Rwy'n cynnig felly bod S4C yn adeiladu ac yn rhedeg adrannau, timau a strwythurau mewn ffordd gwbl wahanol. Yn hytrach nag adrannau a thimau fertigol anhyblyg: Comisiynu, Corfforaethol, Darlledu a Dosbarthu, Materion Busnes, Cyllid ac Adnoddau Dynol (HR) a Chyfathrebu (nad ydynt yn cydweithredu ac sy'n prosesu gwaith yn fertigol i fyny ac i lawr eu timau, yn ogystal ag yn llorweddol i'r tîm nesaf yn y 'linell gynhyrchu') rwyf yn argymhell strwythur sy'n seiliedig ar dasgau llorweddol, i'r graddau posibl, sy'n edrych ar rôl graidd S4C o gomisiynu rhaglenni, i gael cyllid a chontractau ar gyfer y rhaglenni ac yna'u darlledu mor syml â phosibl.

Adeiladu timau sydd â golygydd comisiynu, rheolwr uned, ymchwilydd, cyfreithiwr, swyddog marchnata / cyfathrebu a threfnydd amserlenni cynnwys,

er enghraifft. Byddai'r timau hyn yn gweithio gyda'i gilydd â'r cwmni cynhyrchu annibynnol i weithio ar bob cam o'r briff creadigol hyd y darlledu. Byddai strwythur o'r fath yn sicrhau bod timau ac adrannau'n cyfathrebu'n fewnol gydol yr amser, bod sylwadau amryw o dimau a setiau sgiliau'n cael eu hymgorffori yn y broses gomisiynu, bod oedi cyn llofnodi dogfennau allweddol yn derfynol a bod y cerrig milltir cyn lleied â phosibl a bod perchnogaeth y dasg gyfan yn cael ei rhannu. Ni fyddai un adran yn gallu beio un arall am oedi wedyn, nac am ddiffyg gwybodaeth na bod penderfyniadau'n cael eu gwneud heb ymgynghori ag adrannau eraill. Drwy eu gorfodi i rannu gwybodaeth a syniadau yn ystod pob cam o'r broses, nid yn unig y dylai effeithlonrwydd wella ond dylai hefyd arwain at raglenni o safon uwch, sy'n adlewyrchiad gwell o'r boblogaeth Gymraeg ei hiaith yng Nghymru, h.y. effeithlonrwydd ac arloesedd creadigol.



Mae'r diagram uchod yn dangos sut y gallai strwythur tîm newydd symlach weithio. Mae pob lliw yn cynrychioli syniad creadigol / briff: gydag aelod tîm o bob Cyfarwyddiaeth a swyddogaethau allweddol presennol wedi'u dangos. Mae timau'n cael eu ffurfio ar sail tasgau a byddent yn dilyn prosiect o'i ddechrau i'w ddiwedd h.y. o'r syniad creadigol hyd at ei ddarlledu.

Mae'r strwythur hwn yn gweithio'n llorweddol, gan leihau neu ddi-ddymu'n gyfan gwbl yr angen am gyfeirio mewnol (fertigol) a llofnodi terfynol o fewn cyfarwyddiaethau. Mae felly'n annog (ac mewn gwirionedd yn gorfodi) cydweithredu rhwng cyfarwyddiaethau drwy greu timau newydd sy'n torri at draws cyfarwyddiaethau.

Credaf y byddai dull o'r fath hefyd yn golygu llai o angen am gymaint o Gyfarwyddwyr a phenaethiaid swyddi o fewn y strwythur staffio presennol. Mae'n debyg y byddai hefyd yn lleihau nifer y staff fyddai eu hangen ym mhob adran a thîm o'r fath. Nid wyf wedi gallu cyfrifo lefelau staffio'n llawn ond credaf y gellid lleihau nifer y staff sydd eu hangen i redeg S4C yn effeithiol, yn effeithlon ac arloesol gymaint â 40% yn seiliedig ar y lefelau staffio presennol yn ôl y strwythur a'r ffordd newydd hwn o weithio.

Er mwyn goruchwyllo'r ffordd newydd hon o weithio byddwn yn argymhell (fel y nodwyd eisoes) bod y Prif Swyddog Gweithredol (CEO) yn gyfrifol am lofnodi briffiau comisiynu yn derfynol gyda gweddill y swyddogaethau gweithredol yn cael eu rheoli gan Brif Swyddog Gweithredu (COO). Byddai'r Prif Swyddog

Gweithredu yn gyfrifol am sicrhau effeithlonrwydd gweithredol, a byddai'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau'r lefelau uchaf o greadigrwydd ac arloesedd yn y broses gomisiynu. Dylai rôl y Prif Swyddog Gweithredu gynnwys materion cyfreithiol, cyllid a busnes, a dylai felly feddu ar gymwysterau yn y maes cyllid.

Cyllid, Adnoddau Dynol (HR), TG, rolau gweinyddol – gwasanaethau traws sefydliadol

Byddwn yn argymhell symud staff TG nad ydynt yn ymwneud â darlledu i ofal y Prif Swyddog Gweithredu, ynghyd â chyllid a HR. Dylai lefelau staffio yn y gwasanaethau traws sefydliadol hyn gael eu pennu gan feincnodau allanol, er enghraifft, y gymhareb gyfartalog o staff HR i gyflogeion yw 1:108¹¹. Mae'n ddigon hawdd canfod meincnodau tebyg ar gyfer cyllid a TG.

Ni fyddwn yn argymhell bod pob Cyfarwyddwr yn cael Cynorthwydd Personol penodedig ond yn hytrach yn sicrhau bod pob tîm yn rhannu cymorth gweinyddol. Gan fod TG yn gwella'n barhaus y duedd yn y rhan fwyaf o sefydliadau erbyn hyn yw unigolion sy'n hunan gynhaliol o safbwynt gweinyddu a phatrymau gweithio symudol.

Cyfathrebu

Mynegwyd gwahanol safbwyntiau o ran swyddogaethau cyfathrebu a marchnata S4C. Dywedodd llawer o'r tu allan i S4C y dylai pob swyddogaeth o'r fath gael eu hallanoli i'r sector preifat; roedd eraill yn dadlau dros gynnydd mewn gweithgarwch a gwariant. Er ei bod yn amlwg bod digon o arbenigedd yn y sector preifat yn y meysydd hyn yng Nghymru, nid wyf am argymhell hynny am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae angen swyddogaethau cyfathrebu a marchnata mewnol ac allanol. Mae allanoli gwaith dylunio'n gymharol rwydd ond mae disgwyl i gwmni allanol reoli cyfathrebu mewnol yn llawer anos, os nad yn ymylu ar yr amhosibl. Wrth allanoli gwaith rhaid cael rhywun o'r sefydliad i reoli'r gwaith. Os yw hynny'n wir pam na all yr unigolyn hwnnw wneud y gwaith ei hun? Yn ail, rhaid i bob cwmni yn y sector preifat wneud elw. Er y byddai allanoli'r gwaith marchnata a chyfathrebu yn golygu gwariant ychwanegol sylweddol yn y sectorau hyn yng Nghymru, nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai hyn yn rhatach yn y pen draw ar ôl ystyried maint yr elw tymor hir. Efallai bod angen dadansoddiad cost a budd mwy trylwyr i gymharu'r gost o gadw gwaith marchnata'n fewnol a'i allanoli cyn penderfynu ar ffordd ymlaen.

Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu fy mod yn cymeradwyo gweithgareddau a gwariant presennol yr adran gyfathrebu. Dylid rhoi'r gorau i gyhoeddi'r cylchgrawn Sgrin ar unwaith. Ni ellir ei gyfiawnhau o ran cost ac nid wyf yn siŵr o'r sail resymegol dros ei fodolaeth. Nid wyf yn credu am eiliad y byddai gwylwyr craidd S4C yn rhoi'r gorau i wyllo'r sianel os na fydd Sgrin yn eu cyrraedd drwy'r post. Byddai'n bosibl cynhyrchu fersiwn electronig ond byddai'r gynulleidfa darged yn wahanol wedyn – pobl ifanc yn hytrach na'r bobl hŷn sy'n dueddol o'i gael ar y funud. Byddwn hefyd yn argymhell rhoi'r gorau i

¹¹ Adroddiad ymchwil Personnel Today 2008

noddi atodiad teledu'r Daily Post. Unwaith eto nid yw'r sail resymegol dros y nawdd yn fy argyhoeddi a gellid dadlau ei fod yn anghyson. Pan roddodd S4C y gorau i noddi atodiad teledu'r Western Mail ni chredaf fod hynny wedi arwain at ostyngiad dramatig yn y sylw i raglenni S4C. Felly pam fyddai rhoi'r gorau i noddi atodiad y Daily Post yn wahanol?

Dylai cysylltiad S4C â digwyddiadau pwysig barhau. Dyna'n amlwg oedd barn y rhai a holwyd yn fewnol ac yn allanol. Mae'r rhain yn ddigwyddiadau o bwys diwylliannol yn y calendr Cymreig a byddai cefnu'n gyfan gwbl arnynt yn mynd yn groes i rôl S4C yng nghymdeithas Cymru. Ond mae angen torri'n ôl yn sylweddol ar y costau o fynychu'r digwyddiadau hyn. Mae angen i S4C fod yn llai uchelgeisiol a thrwy hynny fodloni ar bresenoldeb rhatach.

Rwyf yn cwestiynu'r rhan fwyaf o'r gwariant ar farchnata (gan gynnwys digwyddiadau) ar hyn o bryd. A oes strategaeth farchnata glir sy'n ategu'r amcanion corfforaethol cyffredinol? Nid yw 59% o'r siaradwyr Cymraeg yng Nghymru'n gwyllo S4C o gwbl yn ystod unrhyw wythnos ar hyn o bryd. Oni ddylai'r cyfan, neu fwyafrif helaeth, y gwariant a'r gweithgareddau marchnata gael eu hanelu at y 59% hwnnw? Wrth gwrs, rhaid i gomisiynu hefyd wneud ei ran i roi sylw i'r 59% hynny nad ydynt yn gwyllo'r sianel drwy gynhyrchu cynnwys mwy amrywiol y byddent yn dymuno'i wyllo, ond rwyf yn siŵr bod rhaglenni y gellid eu marchnata'n well ar gyfer y rhai nad ydynt yn gwyllo ar hyn o bryd. Mae gan S4C broblem hefyd o ran canfyddiadau o'r sianel gyda phobl ifanc yn teimlo nad yw'n 'cŵl' a'r rhai ar y pegwn arall – y penderfynwyr, y llunwyr polisi a'r arweinwyr diwylliannol – sy'n teimlo bod S4C wedi'i ynysu'i hun oddi wrth unrhyw fath o atebolrwydd cyhoeddus a deialog. Rhaid i S4C fynd ati i gynyddu ei weithgarwch cyhoeddus a hynny'n rhannol drwy gyfathrebu marchnata llawer gwell ac wedi'i dargedu.

Rhaghysbysebion a Deunydd Hyrwyddo

Mae'n amlwg bod gan S4C dîm talentog sydd ag enw da ymhlith eu cymheiriaid am gynhyrchu deunydd safonol ac arloesol. Fodd bynnag, mae costau gwneud y gwaith hwn yn fewnol, neu o leiaf ei ddyfeisio'n fewnol, yn uchel ac yn anffodus ni ellir eu cyfiawnhau oherwydd y flaenoriaeth i ddiogelu cyllidebau comisiynu. Cadarnhaodd yr holl gwmnïau cynhyrchu annibynnol nid yn unig y byddent yn hapus i gynhyrchu'r rhaghysbysebion a'r deunydd hyrwyddo eu hunain ond y byddent hefyd, o fewn rheswm, yn barod i gynnwys y costau cynhyrchu o fewn cyllidebau cynhyrchu rhaglenni presennol. Credaf y byddai hyn yn arwain at arbediad sylweddol i S4C.

Darlledu a Dosbarthu

Mae rhai arbedion effeithlonrwydd y gellid eu rhoi ar waith yn gymharol gyflym. Mae'r rhain wedi'u hanelu'n bennaf er budd y sector cynhyrchu annibynnol, ond nid yn gyfan gwbl. Yn gyntaf, pam nad yw S4C yn caniatáu i raglenni gael eu cyfleu ar-lein? Byddai rhoi'r gorau i drosglwyddo â thâp pan yn bosibl yn lleihau costau ac yn cyflymu'r broses, er y byddai'n golygu rhai costau technegol untro. Yn ail, byddai cydweithio â chwmnïau cynhyrchu i leihau problemau cyfleu'n hwyr a llofnodi terfynol hwyr hefyd yn arbed arian.

Hefyd mae rhaid edrych ar fater Manyllder Uwch (HD). A ddylai S4C mewn gwirionedd fod ar flaen y gad i gyflwyno gwasanaeth HD? A oes yn rhaid i'w holl raglenni gael eu gwneud mewn HD? Mae hyn wedi ychwanegu costau cyfalaf sylweddol at y gwariant diweddar, ac yn awr mae awydd i symud i lefelau SR HD. Pam mae'n gwneud hyn pan ddywed yr holl gynhyrchwyr annibynnol wrthyf ei fod yn faich ariannol ychwanegol arnynt a hynny ar adeg o gwtogi ar gyllidebau cynhyrchu? Deallaf fod y mater hwn yn cael sylw ar hyn o bryd.

Yn olaf, rhaid i mi gwestiynu'n llwyr pam mae S4C yn trosglwyddo (transmit) ei raglenni ei hun? Ni ddylid edrych ar hwn fel elfen sanctaidd o'r gwasanaeth yng nghyd-destun yr adolygiad effeithlonrwydd hwn. Gyda'r newid rhag blaen pan fydd y sianel yn cael ei chyllido drwy ffi'r drwydded gan y BBC yn ddi-os mae rhannu trosglwyddo'n fater y dylid ei ystyried o ddifrif. Dylai S4C hefyd gynnal ymarferiad i gymharu costau â darparwyr eraill o'r sector preifat. Ni fyddai unrhyw benderfyniad i roi'r gorau i drosglwyddo'i raglenni ei hun yn digwydd ar unwaith, ond rwyf yn argymhell bod S4C yn comisiynu dadansoddiad cost a budd manwl cyn gynted â phosibl.

Lleoli neu Adleoli S4C

Er nad yw'r adroddiad hwn wedi gallu cynnal dadansoddiad manwl o'r mater o ble mae S4C yn lleoli ei bencadlys, mae nifer o randdeiliaid allanol a holwyd wedi codi'r posibilrwydd o adleoli S4C y tu allan i Gaerdydd. Felly, teimlaf fod dyletswydd arnaf i grybwyll y mater, o leiaf.

Mae hwn yn fater cymhleth. Mae'n ymwneud nid yn unig ag ystyriaethau cost ond ag ystyriaethau diwylliannol ac economaidd rhanbarthol. Mae'n amlwg bod cost eiddo a thir yn uwch yng Nghaerdydd nag mewn llawer o rannau eraill o Gymru. Gallai symud pencadlys S4C i rywle arall yng Nghymru ryddhau arian untro i'r sefydliad. Ar y llaw arall, efallai na fyddai'n arwain at arbedion sylweddol a byddai'n sicr o amharu ar yr ymdrechion i fynd i'r afael â materion pwysicach.

Mae'n debyg y gellir cyflwyno'r dadleuon dros adleoli yn well o safbwynt y diffyg hyder y mae S4C yn ei ddiodef ar hyn o bryd o gyfeiriad ei gynulleidfaoedd craidd a'i randdeiliaid. Gallai symud S4C i rywle arall fel Caernarfon (sef y lleoliad a grybwyllwyd amlaf) gyd-fynd yn well â pholisi Llywodraeth Cymru i symud sefydliadau sector cyhoeddus pwysig o'r brifddinas. Mae effaith lluosydd economaidd symudiad o'r fath yn hysbys ac fe'i gwelwyd droeon o'r blaen. Hefyd, byddai'n symud S4C yn nes at ei berfeddwlad ddiwylliannol a gallai greu amgylchiadau lle na fydd amddiffyn ei gyllid yn ddadl ddiwylliannol yn unig ond yn un economaidd ranbarthol hefyd. Gallai symud S4C o Gaerdydd yn gorfforol hefyd helpu'r cydbwysedd rhwng y tebygolrwydd cynyddol y bydd y BBC yng Nghymru yn cael ei ganoli yng Nghaerdydd. Gallai adleoli hefyd hwyluso'r newidiadau diwylliannol mewnol angenrheidiol yn haws gan y byddai symud i adeilad newydd yn arwydd o ddiwylliant newydd a ffordd newydd o weithio.

Ond, ar y llaw arall, gallai symud S4C o Gaerdydd arwain at ysgariad gwleidyddol pellach a gallai waethygu'r sefyllfa o safbwynt cysylltiadau

cyhoeddus â rhanddeiliaid allweddol. Gellid edrych arno hefyd fel ffordd o 'redeg i ffwrdd' oddi wrth yr holl sylw.

Efallai mai'r pryder mwyaf i S4C fyddai'r posibilrwydd y gallai golli talent y presennol a'r dyfodol. Mae Caerdydd yn dal i ddenu'r gyfran fwyaf o'r 'dosbarthiadau creadigol'¹² yng Nghymru, a byddai symud o Gaerdydd yn rhwym o leihau'r gronfa o dalent greadigol sydd ei hangen ar S4C i weithredu'n effeithlon ac arloesol.

I grynhoi, ni chredaf y dylid ystyried symud S4C o Gaerdydd yn awr gan y byddai hynny'n tynnu sylw ac adnoddau oddi wrth y dasg o fynd i'r afael â phroblemau pwysicach a brys.

¹² Richard Florida The Rise of the Creative Class, 2002

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

1. Dylai S4C ymdrechu i fod yn sefydliad We-Think¹³ sy'n cymell, cydlynu ac arloesi.
2. Rhaid i S4C roi sylw i broblemau diffyg cydweithredu, ei amgylchedd gweithio ffisegol, cyfathrebu mewnol, arweinyddiaeth, ethos y sector cyhoeddus a diffyg amrywiaeth.
3. Mae S4C yn cael ei weld fel sefydliad cyfrinachgar, naïf, trahaus, darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gwael, heb feddu ar ddealltwriaeth, gyda phroblem sylfaenol o ran cyfathrebu â rhanddeiliaid, heb y gallu i ymddiried, yn ynysig, yn anghreadigol, ac yn amharod i newid.
4. Yn fewnol, mae'r morâl yn S4C yn isel ac nid yw'r rhan fwyaf o'r staff yn ddigon hyderus i fynd i'r afael â'r problemau presennol. Mae diwylliant o ofn, cyfrinachedd, diffyg ymddiriedaeth a rheolaeth ormodol yn parhau. Nid yw staff yn rhannu gwybodaeth, nid ydynt yn deall rolau'i gilydd ac nid ydynt yn cydweithredu. Er gwaethaf sefyllfa S4C, nid yw'r staff yn unedig ac mae rhaniadau mawr rhwng adrannau a thimau. Nid yw S4C yn sefydliad creadigol nac arloesol mwyach. Mae ganddo fiwrocraziaeth hen a hen-ffasiwn sy'n perthyn i'r sector cyhoeddus a diwylliant 9-5 sy'n amhriodol i ddiwydiant creadigol.
5. Mae 50% o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi – ar y llaw arall, nid yw 50% yn teimlo felly.
6. Nid yw timau ac adrannau'n cydweithredu, yn rhannu syniadau nac yn datrys problemau ar y cyd yn rheolaidd. Mae cynnwys pobl o bob adran ym mhob agwedd ar waith y sefydliad yn hanfodol. Rhaid i bob aelod o'r tîm deimlo bod eu barn a'u syniadau'n cael eu gwerthfawrogi.
7. Mae'r cynllunio mewnol yn wael, os yw'n bod o gwbl, er hynny nid yw model gweithrediadol S4C yn gymhleth; neu ni ddylai fod mor gymhleth, o leiaf.
8. Mae swyddfeydd cynllun agored wedi golygu llai o gydweithredu, cyfathrebu, creadigrwydd ac arloesi. Mae'n debyg eu bod hefyd wedi amharu ar effeithlonrwydd hefyd, ond nid yr adeilad sy'n bennaf cyfrifol am hynny, ond ffactorau eraill, megis rhaniad rhwng dwy ochr yr adeilad, y gred anghredadwy sy'n tybio na all cydweithwyr fod yn gweithio os ydynt yn siarad â'i gilydd, ac yn fwy na dim mae diwylliant presennol yn S4C yn annog staff i beidio cydweithredu a chyfathrebu
9. Er mwyn gwella'r sefyllfa dylai S4C fynd i'r afael â'r diwylliant o ofn a drwgdybiaeth drwy annog sgyrsiau, mwy o gyfarfodydd i'r staff cyfan, cymysgu mwy ar y timau a staff, a gwneud i awyrgylch y swyddfa deimlo'n fwy bywiog, personol a chreadigol.
10. Arferion gweithio a buddiannau staff: mae S4C yn dioddef o ganlyniad i'w drosiant staff isel; mae 'gwaed newydd' yn hanfodol i'w ddyfodol ac mae

¹³ Charles Leadbeater We-Think: Mass innovation, not mass production , 2008

llawer gormod o bobl wedi bod yn eu swydd(i) yn llawer rhy hir. Dylai swyddi uwch swyddogion comisiynu ddilyn arfer y diwydiant, sef penodiadau cyfnod sefydlog o 5 mlynedd. Mae angen lleihau buddiannau staff a gellid arbed o leiaf £350K y flwyddyn drwy:

- a. Diddymu'r yswiriant iechyd preifat
 - b. Adolygu'r hawliau gwyliau
 - c. Cadw'r lwfans meithrin ar gyfer y graddfeydd isaf yn unig
 - ch. Diddymu ceir cwmni cyn gynted â phosibl
 - d. Rhoi'r gorau i'r ddarpariaeth 'bws i'r dref'
 - dd. Diddymu'r pecynnau teledu, DVD a Sky ar unwaith ac edrych a oes modd adennill y costau
 - e. Chwilio am ffyrdd rhatach o ddarparu gwersi Cymraeg i staff
 - f. Adolygu'r cymhorthdal i'r clwb cymdeithasol
 - ff. Diddymu'r cymhorthdal i'r ffreutur ar unwaith: un ai cau'r ffreutur neu ei redeg fel busnes allanol cyn gynted ag y cytunir ar un o'r dewisiadau hyn
11. Newid arferion gweithio'r staff, cyflwyno swydd ddisgrifiadau mwy hyblyg, annog rhannu sgiliau, creu 'llysgenhadon' sy'n gweithio mewn timau nad ydynt yn rhan o'u rolau adrannol presennol a chael gwared ar brosesau biwrocraidd dibwrpas ar frys
 12. Parhau i wella'r trefniadau cyfathrebu mewnol drwy hwyluso cyfathrebu wyneb yn wyneb: peidio dibynnu ar TG, mewnrwyd newydd a chyfryngau cymdeithasol eraill fel ateb i bob problem nes bydd y diwylliant yn gwella
 13. Mae llawer gormod o bolisiau a gweithdrefnau: dylid cael gwared ar y rhai nad ydynt yn ychwanegu gwerth nac yn annog creadigrwydd. Yn hytrach dylid galluogi staff i ddatblygu eu patrymau gweithio eu hunain sydd fwyaf addas ar gyfer y dasg neu'r syniad maent yn gweithio arno
 14. Mae S4C yn sefydliad diwylliannol unfurf. Mae angen i S4C wella amrywiaeth er mwyn bod yn fwy arloesol drwy strategaethau a gweithredoedd rhagweithiol.
 15. Gwerthu neu rentu'r holl adeiladau a chyfleusterau sy'n cael eu defnyddio cyn gynted â phosibl
 16. Adolygu cyfyngiadau ar ailwerthu ei feddalwedd BSM i ddarllledwyr eraill ledled y byd
 17. Adolygu perchnogaeth yr adeilad ar faes y Sioe Frenhinol
 18. Catalogio archif S4C ac ystyried datblygu prosiect i helpu i werthu cynnwys yr archif mewn ffyrdd newydd.
 19. Newid rôl golygyddion cynnwys yn ôl i olygyddion comisiynu sy'n fwy agored, hygyrch, gweledigaethol a chreadigol wrth leihau micro reoli

cynnwys allanol. Creu 5 Golygydd Comisiynu ond peidio â chreu swyddi golygyddion cynorthwyol na Phennaeth Rhaglenni: rhoi'r rôl honno yng ngofal y Prif Swyddog Gweithredol.

20. Symleiddio'r holl broses gomisiynu gyda llawer llai o haenau 'llofnodi terfynol' ac oedi biwrocraidd. Sicrhau bod y briff comisiynu'n gwyno yn unol â darlledwyr eraill.
21. Cynnal adolygiad o Delerau Masnach presennol S4C er mwyn eu cymharu â darlledwyr eraill, a cheisio, pan yn bosibl, symud swyddogaethau fel taliadau talent i'r sector cynhyrchu annibynnol.
22. Sicrhau bod contractau'n cael eu llofnodi'n llawer cyflymach ac effeithlon. Dylid cael gwared ar weithdrefnau diangen o fewn y prosesau contractio, taliadau a chyfreithiol. Mae angen edrych ar arferion gorau sefydliadau eraill.
23. Un ai diddymu tendro'n gyfan gwbl yn y dyfodol neu gyfyngu tendrau i'r lleiafswm lleiaf lle mae agweddau nad ydynt yn greadigol yn hanfodol e.e. y tywydd neu ddarllediadau allanol a digwyddiadau
24. Sicrhau nad yw'r newid tuag at gyllido ar y cyd yn dadwneud unrhyw ddatblygiadau i leihau gweithdrefnau gweinyddol mewnol. Dylid hefyd ystyried cynyddu nifer y ffilmiau a gyllidir ar y cyd y mae'n buddsoddi ynddynt a sicrhau bod S4C yn ailafael yn ei bartneriaeth ag Asiantaeth Ffilm Cymru. Yn bwysicach na dim, mae angen iddo drafod ei gynlluniau'n agored â'r sector cynhyrchu annibynnol cyn bwrw ymlaen â hyn. Mae cyllido ar y cyd o reidrwydd yn golygu bod angen a chael partneriaid a chydweithredwyr. Rhaid cael mwy o ddeialog i gyflawni hyn.
25. Mae angen meincnodi prisiau ar gyfer rhaglenni ar draws cwmnïau Cymreig unigol i sicrhau paredd, os nad cydraddoldeb. Dylid hefyd adolygu prisiau'n gyffredinol gan fod y duedd yng ngweddill sector teledu'r DU wedi bod yn gwthio prisiau i lawr a gallai S4C, efallai, gael yr un cynnyrch am lai o arian. Hefyd, mae angen cadw mewn cysylltiad ag arferion technolegol a chynhyrchu gorau, sy'n galluogi cwmnïau annibynnol i fod yn fwy effeithlon, ac a fydd yn helpu S4C i negodi'n deg, ond yn gadarn dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.
26. Mae angen cael gwared ar strwythurau staffio ac adrannol fertigol anhyblyg sy'n trosglwyddo gwaith i fyny ac i lawr yn ogystal ag yn llorweddol rhwng timau. Dylid yn hytrach adeiladu timau sy'n rhannu perchnogaeth tasgau ac sy'n gweithio ar y dasg o'r syniad hyd at y darlledu ar y cyd â'r cwmni cynhyrchu annibynnol.
27. Mae angen ystyried cwtogi'n sylweddol ar swyddi Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid a chreu swydd Prif Swyddog Gweithredu (COO) i oruchwylio'r holl weithrediadau, heblaw am lofnodi briffiau'n derfynol (gallai'r Prif Swyddog Gweithredol (CEO) wneud hynny). Dylid ymdrechu hefyd i sicrhau gostyngiad o hyd at 40% yn nifer y swyddi eraill ar sail y lefelau staffio presennol, drwy wella perfformiad yn sgil cynllunio gwell, cyfathrebu, rhannu sgiliau a chydweithredu.

28. Rhoi TG annhechnegol yng ngofal y Prif Swyddog Gweithredu (COO), ynghyd â chyllid ac adnoddau dynol, a lleihau staff yn y timau hyn yn unol â meincnodau'r diwydiant.
29. Mynd ati i wneud staff yn hunan gynhaliol yn weinyddol, gyda staff gweinyddol yn gweithio fel rhan o dîm. Ni fyddai cyfarwyddwyr yn cadw'u cynorthwyr personol eu hunain.
30. Cyfathrebu a marchnata i barhau'n fewnol oni bai bod dadansoddiad cost a budd pellach ynghylch allanoli'n argymhell newid strategaeth. Ond mae angen cwotgi ar gyfran sylweddol o'r gwaith marchnata presennol:
 - a. Rhoi'r gorau i gynhyrchu'r cylchgrawn Sgrin yn gyfan gwbl
 - b. Rhoi'r gorau i noddi atodiad teledu'r Daily Post
 - c. Bod yn llai uchelgeisiol a thorri'n ôl ar weithgareddau mewn digwyddiadau pwysig, ond cadw presenoldeb strategol
 - ch. Datblygu strategaeth farchnata newydd sy'n targedu'r 59% o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn gwyllo S4C yn rheolaidd
 - d. Datblygu strategaeth materion cyhoeddus well a'i rhoi ar waith ar unwaith.
31. Rhoi'r gorau i gynhyrchu rhaghysbysebion a deunydd hyrwyddo'n fewnol a rhoi'r gwaith i'r sector cynhyrchu annibynnol, gan gynnwys ymgorffori costau rhaghysbysebion a deunydd hyrwyddo yn y costau cynhyrchu presennol. Mae'r sector annibynnol wedi datgan y byddai'n croesawu'r newid ac, er braidd yn anfoddog, yn fodlon ysgwyddo'r costau hyn o fewn prisiau chynhyrchu presennol.
32. Mynd ati'n ddi-oed i ganiatáu i raglenni gael eu cyfleu ar-lein yn hytrach nag ar dâp yn unig. Mae'n amlwg y byddai hyn yn golygu costau technegol ychwanegol ond yn sicr gellid eu hadennill yn y tymor canolig yn sgil effeithlonrwydd gweithrediadol o fewn S4C ac o fewn y sector cynhyrchu annibynnol?
33. Adolygu'r pwyslais ar gael cyfran mor uchel o raglenni mewn HD a chyflwyno moratoriwm ar fwriad i gyflwyno gofyniad SR HD.
34. Cynnal astudiaeth, cyn gynted â phosibl, i'r arbedion cost posibl yn sgil rhoi'r gorau i drosglwyddo (transmit) rhaglenni'n fewnol, ond yn hytrach eu tendro i'r BBC neu ddarparwr arall o'r sector preifat.

S4C: Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion a Thabl Gweithredu

Fel y dywed yr adroddiad llawn, y nod yw troi S4C yn sefydliad We-Think sy'n arddangos nodweddion sefydliad creadigol, agored, arloesol, sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n hyblyg, sy'n cael ei arwain o'r gwaelod i fyny, ac sy'n amrywiol a chydweithredol.

Newid Diwylliant Mewnol S4C

Gellir crynhoi naws gyffredinol fy nghanfyddiadau ar ddiwylliant mewnol a'r canfyddiadau allanol o S4C yn yr hyn a ddywedodd y rhai a holwyd yn fewnol wrthyf. Nid oes amheuaeth nad yw'r diwylliant mewnol sy'n cael ei adlewyrchu yn fy nghanfyddiadau'n arwydd o fethiant sylweddol yn y trefniadau rheoli a llywodraethiant yn S4C yn ystod y blynyddoedd diweddar. Ac eithrio materion yn ymwneud â chyllido allanol y methiant i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yw'r bygythiad mwyaf i allu S4C i wasanaethu ei gynulleidfa ac i adennill a chadw hyder ei randdeiliaid.

“Nid oeddwn yn cael gwneud hyn [bod yn bresennol yng nghyfarfodydd timau eraill na rhannu syniadau â thimau eraill] am nad yw pobl yn ymddiried yn ei gilydd”; “Yn hytrach na chydweithredu roeddem ni [ein tîm] yn cael ein hannog i danseilio pob tîm arall, yn union fel tynnu'r ffyn mewn gêm o KerPlunk”; “Ni oedd y tîm olaf yn S4C i fod yn rhan o unrhyw brosiect rhwng timau [er gwaethaf pwysigrwydd eu rôl]”; “Nid oes dim rhannu er bod pawb yn gwybod y byddai hynny'n arbed amser ac arian”; “Rwyf yn awr yn cymryd rhan mewn cyfarfod wythnosol rhwng adrannau, ond nid oes gen i lais yn yr hyn sy'n cael ei drafod a does neb yn gwrandao ar syniadau newydd – beth yw'r pwynt?”.

Yn ei hanfod, mae dau ddangosydd pwysig sy'n amlygu methiant y diwylliant corfforaethol yn S4C. Mae'r cyntaf yn cael ei amlygu gan ddiffyg cymhelliant, cydweithrediad ac amharodrwydd staff i gymryd risgiau, adeiladu 'seilos' mewnol a'r ofn oedd i'w deimlo o fewn timau. Yn ail, mae methiant yn y diwylliant gweithrediadol yn cael ei amlygu gan yr holl swyddogaethau, prosesau a chostau nad oedd yn gysylltiedig â rhaglenni.

	<u>Argymhellion</u>	<u>Adrannau</u>	<u>Camau Gweithredu</u>
<p>Cafodd diwylliant mewnol S4C ei ddisgrifio gan staff fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llawn ofn • Yn lladd cymhelliant • Unbenaethol • Anghydweithredol • Mewnbylg • Wedi'i yrru gan brosesau yn hytrach na'i symbylu gan ganlyniadau • Amharod i gymryd risgiau • Oeraidd 	<p>1. Mae methiant y diwylliant corfforaethol yn S4C yn fethiant ar ran yr uwch dîm rheoli. Er bod llawer o sefydliadau'n elwa drwy gadw a datblygu ei staff dros y tymor hir, anaml y bydd hyn yn wir mewn achosion o fethiant tymor hir. Mae'r problemau a grëwyd yn sgil hyn yn amlwg:</p> <ul style="list-style-type: none"> - anallu i feddwl yn ddargyfeiriol neu'n feirniadol am yr heriau sy'n wynebu'r sefydliad - anallu i werthfawrogi canfyddiadau allanol - agweddau disymud a diffyg ymwybyddiaeth o syniadau a thechnegau rheoli allanol - lle ceir methiant tymor hir ymddengys fod rhai uwch reolwyr yn fwy o atalwyr na galluogwyr newid wrth iddynt geisio 'amddiffyn' eu safle o fewn strwythurau hierarchaidd. <p>2. Dylid ailstrwythuro'r tîm rheoli a dylid gwneud penodiadau newydd lle mae hynny'n briodol a phosibl. Dylid creu swydd newydd COO / Pennaeth Gweithrediadau a dylai unigolyn addas gael ei recriwtio'n allanol, os yn bosibl. Byddai swyddogaethau mewnol (Cyfreithiol, Corfforaethol, Cyllid, Materion Busnes ac ati) yn atebol i ddeiliad y swydd hon.</p> <p>3. Dylid ailstrwythuro adrannau mewnol yn dimau sy'n seiliedig ar dasgau yn hytrach na seilos ar wahân o fewn eu</p>	<p>Pob adran.</p> <p>Adrannau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau penodol ac y cyfeiriwyd atynt mewn ymchwil e.e. Materion Busnes i gael sylw ar unwaith ar ôl penodi'r Prif Swyddog Gweithredol newydd</p>	<p>Mae'n amlwg bod ystyriaethau cyfraith cyflogaeth ynghlwm wrth yr argymhellion hyn. Fodd bynnag, dyma'r mater allweddol sy'n wynebu S4C wrth iddo geisio bod yn fwy arloesol ac effeithlon. Mae penderfyniadau anodd i'w cymryd gan yr Awdurdod a'r CEO newydd, ac nid oes modd eu hosgoi.</p> <p>Mae'r rownd gyfredol o ddiswyddiadau gwirfoddol yn cynnig cyfleoedd, felly bydd newidiadau sylweddol i rolau staff a ffyrdd o weithio.</p>

